






CYNGOR BRO MORGANNWG

# Y CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG 2022-2032



 @VOGCouncil  Vale of Glamorgan Council  [jmorgan@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:jmorgan@valeofglamorgan.gov.uk)  01446 700111  [www.valeofglamorgan.gov.uk](http://www.valeofglamorgan.gov.uk)

# Cyngor Bro Morgannwg

## Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022 i 2032

Gwneir y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn o dan Adran 84 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mae'r cynnwys yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019<sup>12</sup>. Rydym wedi rhoi sylw dyledus i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth bennu ein targedau.

Paula Ham  
Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau

---

<sup>1</sup> [Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg \(Cymru\) 2019](#)

<sup>2</sup> [Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg \(Cymru\) \(Diwygio\) \(Coronafeirws\) 2020](#)

Cynnwys	Tudalen
Ein Gweledigaeth	3
Deilliant 1: Mwy o blant meithrin / plant tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg	8
Deilliant 2: Mwy o blant dosbarth derbyn / plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.	21
Deilliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam yn eu haddysg statudol i'r llall.	26
Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau asesedig mewn Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.	31
Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.	36
Deilliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.	41
Deilliant 7: Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	46
Sut y byddwn yn gweithio gydag eraill i gyflawni ein gweledigaeth	52

## Ein Gweledigaeth

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau bod pob disgybl yn y Fro yn cael pob cyfle i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl, gan sicrhau bod manteision dwyieithrwydd yn cael eu hyrwyddo i bob rhiant a bod pob dysgwr yn cael cyfle i ddysgu Cymraeg. Gan gydnabod pwysigrwydd Cymraeg 2050, a rôl addysg o ran cyflawni'r weledigaeth hon, mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn yn nodi cynllun deng mlynedd y Cyngor ar gyfer datblygu ymhellach y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg. Mae'n adeiladu ar waith y CSCA blaenorol ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2022 ac yn nodi cynllun gwaith sy'n dangos sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei weledigaeth ddeng mlynedd.

Ein gweledigaeth ddeng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella'r gwaith o gynllunio darpariaeth addysg Gymraeg ym Mro Morgannwg fydd cynyddu nifer y plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg i 24% erbyn 2031-32. Mae hyn yn cyfateb i greu tua 390 o leoedd blwyddyn un erbyn 2031-32 yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth presennol. Pennwyd y targed heriol hwn yn unol â Rheoliadau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 (Rheoliadau 2019) a Rheoliadau CSCA (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 (Rheoliadau 2020). Wrth bennu'r targed hwn, rhoddwyd sylw dyledus i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Deddf 2013). Mae'r targed hwn yn seiliedig ar gyfrannu at y targed hirdymor cyffredinol o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, fel y nodir yn Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg (Cymraeg 2050).

Er mwyn cyflawni'r targed uchelgeisiol hwn, byddwn yn adeiladu ar gyflawniadau ac arfer da blaenorol, gwersi a ddysgwyd, ac arfer da fel y dangoswyd yng nghylch y CSCA blaenorol a byddwn yn sicrhau ein bod yn cryfhau ein dull o gyfathrebu, ymgysylltu a chynnwys ysgolion, rhieni, gofaluwr a'u plant a rhanddeiliaid allweddol eraill i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd i ddysgu Cymraeg mewn ffyrdd sy'n diwallu eu hanghenion. Bydd creu'r galw am addysg Gymraeg drwy hyrwyddo manteision addysg ddwyieithog ochr yn ochr â buddsoddi yn ein hystâd addysg hefyd yn cefnogi ein huchelgais. Y targed heriol o 24% yw pwynt canol yr amrediad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cydnabod yr angen am gydbwysedd gofalus rhwng bod yn uchelgeisiol a bod yn realistig. Targed yw hwn ac nid cyfyngiad, felly lle mae cyfle i ragori ar ein targedau rhwng nawr a 2032, byddwn yn manteisio ar y cyfle hwnnw. Fodd bynnag, mae angen i ni fod yn bragmataidd yn ein gallu i gyflawni ochr yn ochr â'n partneriaid a chydabod a lliniaru yn erbyn heriau sy'n hysbys.

## Cynyddu capasiti

Mae Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt) yn fuddsoddiad strategol hirdymor yn yr ystâd addysgol ledled Cymru. Mae'n enghraifft o gydweithredu unigryw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), awdurdodau lleol, colegau ac esgobaethau. Cynyddodd Band A y rhaglen y capasiti ar gyfer addysg Gymraeg drwy greu dwy ysgol gynradd newydd, Ysgol Bro Morgannwg yn y Barri (darpariaeth gynradd) ac Ysgol Dewi Sant yn Llanilltud Fawr ac ehangu Ysgol Gwaun y Nant. Fel rhan o Fand B y rhaglen mae adeilad ysgol gynradd 2 ddosbarth newydd yn cael ei adeiladu ar ddatblygiad newydd Glannau'r Barri. Bydd Ysgol Sant Baruc yn trosglwyddo i'r adeilad ysgol newydd ar ôl iddo gael ei gwblhau, gan ddarparu 210 o leoedd cynradd ychwanegol. Mae'r Cyngor hefyd wedi buddsoddi mwy na £21m yn cynyddu capasiti uwchradd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg i gynig 299 o leoedd uwchradd ychwanegol, tra hefyd yn uwchraddio'r cyfleusterau presennol i roi amgylcheddau dysgu o'r radd flaenaf.

Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol i hwyluso darpariaeth Gymraeg eisoes wedi'u nodi, megis y cynnig i ymestyn darpariaeth gynradd Gymraeg yn y Bont-faen. Byddai hyn yn destun ymgynghori ac ariannu. Bydd cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg i gefnogi CSCA'r Cyngor yn flaenoriaeth allweddol fel rhan o ddatblygu Rhaglen Amlinellol Strategol y Cyngor ar gyfer camau pellach o'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn y dyfodol. Mae'r Cynllun Gymraeg mewn Addysg 2017-2021 yn disgrifio cyfarwyddyd ar gyfer datblygu addysg Gymraeg ac iaith Gymraeg dros gyfnod o bedair blynedd, yn unol â gweledigaeth Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg ac Addysg yng Nghymru. Mae'r cyngor yn derbyn, er mwyn cyfrannu'n effeithiol at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, bod angen buddsoddiad sylweddol yn y ddarpariaeth addysg er mwyn creu a hwyluso'r galw am addysg Gymraeg. Bydd cam deng mlynedd nesaf Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Bro Morgannwg yn rhan annatod o strategaeth Gymraeg y Cyngor.

Wrth gyfrannu'n effeithiol at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac i greu galw, strategaeth y Cyngor ar gyfer Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru fydd parhau i ganfod cyfleoedd i gynyddu addysg Gymraeg ar draws pob sector, gan greu galw ac adlewyrchu datblygiadau tai newydd sydd wedi'u cynllunio dros y 10 mlynedd nesaf.

Mae'r Cyngor wedi nodi, ar sail y dystiolaeth hyd yma ar y galw cynyddol sy'n deillio o ddarpariaeth newydd, y bydd angen darpariaeth uwchradd ychwanegol ac y caiff hynny ei hystyried fel rhan o gynllunio trefniadaeth ysgolion parhaus. Bydd y Cyngor yn ceisio canfod safle newydd yn ardal Penarth neu'r Bont-faen yn dilyn gwerthusiad o ddigonolrwydd y galw i gefnogi'r ysgol arfaethedig. Ystyrir y byddai angen i hyn ffurfio rhan o Gynllun Datblygu Lleol Newydd y Cyngor sydd ar hyn o bryd yn y camau cychwynnol o gael ei lunio. Byddai hyn yn arwain at safleoedd ysgolion newydd yn cael eu dyrannu yn y cynllun datblygu newydd i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn briodol drwy'r broses gynllunio a bod modd eu cyflawni yn nhermau cynllunio. Bydd adolygiad o leoedd Cymraeg uwchradd yn cael ei gynnal er mwyn llywio'r Cynllun Datblygu Lleol newydd a bydd yn cael ei gwblhau erbyn Mehefin 2022.

Mae adolygiadau parhaus o'r galw am leoedd addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg yn ystyried y rhagamcanion poblogaeth diweddaraf a'r amcangyfrifon canol blwyddyn ar gyfer Bro Morgannwg a gaiff eu cynhyrchu gan Lywodraeth Cymru. Ar gyfer addysg, mae hyn yn cael ei ystyried ar lefelau dalgylch unigol a ward, gan gydnabod bod angen edrych ar gymunedau lleol nid targedau eang i'r sir yn unig. Byddai'r rhain wedyn yn cael eu llywio gan niferoedd blaenorol y llefydd cyfrwng Cymraeg yn yr Awdurdod a thargedau a dyheadau'r CSCA hwn i sicrhau fod digon o lefydd Cymraeg yn cael eu cynnig yn yr ardal. Y gyrrwr allweddol wrth gynllunio llefydd Cymraeg ychwanegol yw sicrhau bod rhieni'n cael cyfle i fanteisio ar addysg Gymraeg yn agos i'w cartrefi. Cydnabyddir bod hyn ar hyn o bryd yn heriol i deuluoedd sy'n byw mewn rhai rhannau o'r Fro wledig. Bydd cyfleoedd i ddatblygu lleoliadau gofal plant ac ysgolion Cymraeg hygyrch a chynaliadwy yn yr ardaloedd hyn yn cael eu harchwilio yn rhan gynnar y cylch CSCA hwn.

## **Y cyd-destun lleol**

Wrth ddatblygu ein CSCA, mae'r holl ddeddfwriaeth, strategaethau, polisiau a chynlluniau gweithredu perthnasol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol wedi'u hystyried er mwyn hwyluso mwy o alw a thwf mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg iaith Gymraeg. Mae'n bwysig sicrhau bod y Cynllun hwn yn cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol 2020-25 ehangach y Cyngor ac mae



ein gwasanaeth wedi ymrwymo i gyflawni ei flaenoriaethau yng nghyd-destun gwerthoedd craidd y Cyngor:



Mae blaenoriaethau ein Cyngor wedi'u cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol ac fe'u mynegir fel Amcanion Llesiant. Penderfynwyd ar y rhain ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys dinasyddion Bro Morgannwg.

<b>Amcanion Llesiant ein Cynllun Corfforaethol 2020-25</b>
Amcan 1: Gweithio gyda a thros ein cymunedau
Amcan 2: Cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy
Amcan 3: Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned
Amcan 4: Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd

Mae'r Amcanion Llesiant yn dangos y cyfraniad y bydd gwasanaethau'r Cyngor yn ei wneud i gyflawni Nodau Llesiant Cymru. Sefydlwyd y Nodau Llesiant i sicrhau bod yr holl gyrff perthnasol yng Nghymru yn gweithio tuag at yr un weledigaeth â rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd y CSCA yn cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â nifer o bartneriaid lleol a rhanbarthol oherwydd er mai'r Cyngor sydd â'r cyfrifoldeb arweiniol a statudol dros y CSCA, ni all un sefydliad gyflawni'r camau gweithredu ar ei ben ei hun ac felly mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol ar gyfer llwyddiant y strategaeth. Gwelir y dull partneriaeth hwn hefyd yng

Nghynllun Corfforaethol presennol y Cyngor "Gweithio gyda'n gilydd tuag at ddyfodol mwy disglair":

Mae gan y Cynllun Corfforaethol "bwyslais arbennig o gryf ar gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. Mae'r gwaith partneriaeth hwn yn amrywiol, gan gynnwys gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, ein partneriaid ym maes iechyd, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân yn ogystal â chyrrff sector cyhoeddus eraill, y trydydd sector, Cyngorau Tref a Chymuned a'n cymunedau."

Mae'r CSCA hwn yn adeiladu ar ddyletswyddau statudol a pholisïau blaenorol y Cyngor a'r llwyddiant a'r gwersi a ddysgwyd o gylchoedd CSCA blaenorol. Mae'r heriau presennol yn ffocws clir i'n cynllunio gweithredu, ac mae materion fel recriwtio, Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r duedd a nodwyd o ddisgyblion yn trosglwyddo i Ysgolion Uwchradd Saesneg ar ôl gadael Ysgol Pen-y-Garth ac Ysgol Iolo Morgannwg yn gamau allweddol ar gychwyn y cylch CSCA hwn. Bydd y gostyngiad yn y galw lleol am addysg Gymraeg ym Mhenarth hefyd yn ffocws allweddol i'n sylw. Nodir targedau clir o fewn y ddogfen hon a byddant yn cael eu datblygu ymhellach fel rhan o'r gwaith cynllunio gweithredu a gosod targedau blynyddol ar gyfer ein CSCA.

Mae'r CSCA yn cyd-fynd yn agos hefyd â Strategaeth Ddrafft Hyrwyddo'r Gymraeg y Cyngor 2022-2027 ac ni all y naill strategaeth na'r llall fodoli ar wahân. Maen nhw'n rhan o fframwaith polisi ehangach y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth yn ddogfen lefel uchel ac mae wedi'i hailstrwythuro i gyd-fynd â'r tair thema yn strategaeth "Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg" Llywodraeth Cymru. Sef:

- Thema 1 - Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Thema 2 - Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Thema 3 - Creu amodau ffafriol

Wrth i'r CSCA ddygyfor â Strategaeth Hybu'r Gymraeg ddrafft y Cyngor a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, er mwyn osgoi dyblygu, ystyrir bod y camau gweithredu sy'n ymwneud ag addysg Gymraeg sydd yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft y Cyngor yn rhan o adran 1 Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hybu.

Er mwyn sicrhau bod y ddwy strategaeth allweddol yn llwyddiannus, mae'r Cyngor yn bwriadu recriwtio swyddog laith Gymraeg sydd â chyfrifoldebau dros gyfathrebu a chydlynu ar gyfer datblygiad y Gymraeg yn y dyfodol o fewn yr awdurdod. Hefyd, mae cyfleoedd i recriwtio swyddog addysg arbenigol i ganolbwyntio ar agweddau allweddol o'n huchelgeisiau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu dilyn.

Mae'r byd yn prysur newid ac mae'r cyd-destun i'r Cynllun hwn yn sylweddol wahanol i lle'r oeddem ni ar ddechrau'r cylch CSCA cyntaf. Yn fyd-eang, yn genedlaethol ac yn lleol mae'r ffactorau sy'n effeithio ar sut a beth rydym yn ei wneud a disgwyliadau'r bobl o'n cwrpas yn newid. Yr hyn sy'n gyson yw'r angen i'r Cyngor ymgysylltu â'r gymuned a chynllunio at y dyfodol, i weithio gyda'n partneriaid a chroesawu newid. Fodd bynnag, rhaid i ni hefyd ystyried sut y bydd yr hyn a wnawn a'n penderfyniadau'n effeithio ar genedlaethau'r dyfodol. Mae gan Fro Morgannwg amgylchedd amrywiol sy'n cynnig nifer o heriau. Mae gennym gyfrifoldeb i gadw a gofalu am ein hamgylchedd naturiol, ein diwylliant a'n treftadaeth wych, gan gynnwys ein hiaith. Mae cyfleoedd a phrofiadau'n amrywio ar draws Bro Morgannwg gyda phobl yn byw mewn rhai ardaloedd dan anfantais ac yn ddifreintiedig. Rhaid i ni felly ystyried anghenion

amrywiol y boblogaeth p'un ai oherwydd oedran, ethnigrwydd, iechyd neu amgylchiadau ariannol yn rhan o'r CSCA.

Mae'r ffigurau isod yn rhoi trosolwg o sut mae'r boblogaeth leol yn newid.

- Mae poblogaeth Bro Morgannwg yn dal i dyfu, ac amcangyfrifir bod 132,165 o bobl yn byw yma.
- Amcangyfrifir bod tua 56,435 o aelwydydd ym Mro Morgannwg.
- Erbyn 2039 amcangyfrifir y bydd 17% o'r boblogaeth rhwng 0-15 oed, gostyngiad o 3% ar boblogaeth heddiw.
- Amcangyfrifir bod 3% o boblogaeth y Fro o gefndir ethnig nad yw'n wyn.
- Mae ffigurau poblogaeth diwedd blwyddyn o 2021 (blwyddyn ariannol a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021) yn dangos bod nifer y rhai 3 oed a hŷn y cofnodir eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn 24,400 (neu 19.4%).

[\\*https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/annualpopulationsurveyestimatesofpersonsaged3andoverwhosaytheycanspeakwelsh-by-localauthority-measure](https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/annualpopulationsurveyestimatesofpersonsaged3andoverwhosaytheycanspeakwelsh-by-localauthority-measure)

### **Cyflawniadau allweddol dros y 10 mlynedd diwethaf:**

- Dros £35m wedi'i fuddsoddi mewn addysg Gymraeg fel rhan o Fand A a B Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif (sydd wedi esblygu i fod yn Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu) i gynyddu capasiti cyfrwng Cymraeg a darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i ddysgwyr.
- Creu 630 o leoedd cynradd Cymraeg ychwanegol gyda 210 o leoedd eraill wedi'u cymeradwyo ar gyfer mis Medi 2022.
- Creu 299 o leoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg ychwanegol.

### **Cefnogi ymchwil**

Er mwyn cefnogi camau gweithredu cychwynol ar gyfer ein CSCA, mae'r gweithgareddau canlynol wedi'u cynllunio ar gyfer dechrau 2022:

- Ymchwil desg i ddarparu addysg drochi canol a hwyr ar lefel Cymru gyfan er mwyn ystyried effeithiolrwydd y modelau amrywiol.
- Dadansoddiad o'r ddarpariaeth drochi bresennol ym Mro Morgannwg a datblygu cynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer hwyrdyfodiaid i'r sector uwchradd.
- Trafodaethau gyda rhanddeiliaid am gryfderau a gwendidau'r systemau presennol.
- Ystyried y camau a nodwyd o fewn y CSCA drafft gyda phwyslais arbennig ar ddatblygu darpariaeth ar gyfer hwyrdyfodiaid i addysg Gymraeg.
- Cyflwyno adroddiad i dîm Uwch Arweinyddiaeth y Cyngor ar yr uchod i er mwyn dylanwadu ar gynllunio gweithredu'r CSCA.
- Diweddariad o'n mapiau darpariaeth amrywiol i sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r holl ddarpariaeth sydd ar gael ar ôl y pandemig ac unrhyw fylchau a nodwyd.



## Deilliant 1: Mwy o blant meithrin/3 oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

### Beth yw'r sefyllfa nawr?

Mae gan Fro Morgannwg ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg dda ar gyfer plant cyn oed ysgol mewn nifer o Gylchoedd Meithrin, gan warchodwyr plant, mewn meithrinfeydd dydd a dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion fel a ganlyn:

Ysgol	Ardal	Lleoedd ar gael
Ysgol Pen-y-garth	Penarth	76
Ysgol Sant Baruc	Y Barri	48
Ysgol Sant Curig	Y Barri	114
Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	Y Barri	56
Ysgol Gwaun y Nant	Y Barri	82
Ysgol Dewi Sant	Llanilltud Fawr	56
Ysgol Iolo Morgannwg	Y Bont-faen	66
	<b>Cyfanswm</b>	<b>498</b>

Mae'r llefydd sydd ar gael mewn meithrinfeydd yn darparu ar gyfer y rhai sy'n codi'n 3 a 4 gyda disgwyl i tua 62% o'r llefydd gael eu cymryd gan blant sy'n symud ymlaen i'r dosbarth derbyn yn y flwyddyn ganlynol, sef codi'n 4.

Cylchoedd Meithrin	Ardal	Lleoedd ar gael
Cylch Meithrin Llanilltud Fawr	Llanilltud Fawr	30
Cylch Meithrin Dechrau Dysgu	Y Barri	30
Cylch Meithrin Bethel	Penarth	16
Cylch Meithrin Bethesda	Y Barri	24
Cylch Meithrin Dinas Powys	Dinas Powys	13
Cylch Meithrin Y Bont-faen	Y Bont-faen	29
Cylch Meithrin Pili Pala	Y Barri	35
	<b>Cyfanswm</b>	<b>177</b>

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Mudiad Meithrin i nodi ardaloedd twf. Bydd y Cyngor yn:

- Sicrhau fod deialog barhaus rhwng y Tîm Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a'r Mudiad Meithrin yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel.
- Hyrwyddo trafodaethau o fewn fforymau gwahanol gan gynnwys Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, cyfarfodydd unigol ac yn ystod cyfarfodydd CSCA.
- Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn cydweithio â Mudiad Meithrin fel rhan o'i Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant ac yn hwyluso cynnydd gyda datblygu gofal plant cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg yn y Fro, gan ddarparu opsiynau ar gyfer cyfleoedd a chynllunio yn y dyfodol. Bydd yr adborth yn helpu i lywio'r Cynllun Gweithredu.
- Sicrhau bod manteision dwyieithrwydd ac amlieithrwydd o ran llwyddiant academiaidd a gyrfaedd y dyfodol yn cael eu hamlygu i rieni plant oedran cyn-feithrin. Cydnabyddir pwysigrwydd darparu gwybodaeth berthnasol sy'n galluogi rhieni i wneud penderfyniadau ystyriol am yr opsiynau sydd ar gael iddynt wrth ystyried addysg Gymraeg i'w plant ar wahanol bwyntiau mynediad o fewn eu hardal a bydd yn gam gweithredu clir i'r cylch CSCA hwn.
- Mapio'r lleoliadau Cymraeg a Saesneg a nodi lleoliadau sy'n addas i ddod yn Gylchoedd Meithrin Cymraeg.

Adleolodd y Meithrin ac agor ei ddrysau i blant ym mis Chwefror 2022. Mae gan y Meithrin 54 wedi'u cofrestru gyda 35 o blant ar gyfartaledd yn mynychu'n ddyddiol. Mae'r ddarpariaeth ar agor rhwng 09am a 17:00 yn ystod y tymor gan ddarparu gofal cofleidol i ac o Ysgol Gymraeg Dewi Sant. Cynhaliwyd diwrnod agored ar 9 Mehefin 2022 gyda nifer o gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru yn bresennol.

Mae swyddogion Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Mudiad Meithrin i gefnogi datblygiad parhaus gofal plant cyfrwng Cymraeg. Mae trafodaethau wedi'u cynnal ynglŷn â chyflwyno swyddog Peripatetig Ti a Fi a gyda chyllid drwy'r Gronfa Datblygu Plant, mae cyllid wedi'i sicrhau am flwyddyn ar hyn o bryd. Bydd y swyddog Ti a Fi hwn yn gweithio mewn partneriaeth â Swyddogion y Cyngor a Rheolwr Rhanbarthol Mudiad Meithrin i gefnogi lleoliadau Ti a Fi sydd eisoes yn bodoli er mwyn ail gynnull yn dilyn heriau'r pandemig, darparu cyngor a chymorth i Ti a Fi mewn ardaloedd sy'n wynebu heriau recriwtio a hyrwyddo manteision dwyieithrwydd i bartneriaid a chynrychiolwyr.

Mae cam un yr ehangu ar Dechrau'n Deg yn dechrau ym mis Medi 2022 gan gefnogi 84 o blant 0-4 oed ychwanegol. Mae data Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is a ddarperir gan Lywodraeth Cymru wedi helpu i unio'r ardaloedd newydd, gan dargedu ardaloedd AGEHI newydd â darpariaeth Gymraeg fel blaenoriaeth allweddol. Bydd yr ardaloedd ehangu newydd ar gyfer Dechrau'n Deg yn y Fro yn cwmpasu'r ardaloedd wedi'u targedu yn Sain Tathan 1, Llanilltud Fawr 6, y Llys 1 a Buttrills 3. Mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda Rheolwr Rhanbarthol a Swyddog Datblygu Mudiad Meithrin, sy'n cytuno bod darpariaeth Gymraeg newydd wedi'i sefydlu yno eisoes, ac y gallant gefnogi'r ehangu ar Dechrau'n Deg. Mae'r data a ddarperir gan lechyd yn dangos y bydd 24 o blant ar draws yr ardaloedd ehangu yn gymwys i gael gofal plant wedi'i ariannu o fis Medi 2022 ymlaen.

Bydd cynllun gofal plant a ariennir yn y dyfodol yn cael ei lywio gan Lywodraeth Cymru o Hydref 2022, ond mae cyswllt cryfach gydag Addysg a thîm y Blynyddoedd Cynnar yn hanfodol er mwyn sicrhau bod darpariaeth addysg newydd yn ystyried gofal plant 2 oed sydd wedi'i ariannu o fewn cynlluniau safleoedd, lle mae gofal plant yn gyfyngedig mewn ardaloedd ward.

Yn ddiweddar, sicrhodd y Cyngor grant o £800k gan Lywodraeth Cymru i godi adeilad newydd ar safle Ysgol Gymraeg Dewi Sant i gefnogi'r cynnig gofal plant 30 awr. Cynigiodd y Cyngor brydles i Gylch Meithrin Llanilltud Fawr i gefnogi cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg.

Meithrinfeydd Dydd	Ardal	Lleoedd ar gael
St Aubin	Penarth, Llanilltud Fawr	Mae St Aubin yn lleoliad dwyieithog sydd â 116 o leoedd ar gael yn gyffredinol
St Aubin	Y Bont-faen	Mae St Aubin yn lleoliad dwyieithog sydd â 116 o leoedd ar gael yn gyffredinol

Gwarchodwyr plant Cymraeg	Ardal	Lleoedd ar gael
8 gwarchodwr plant	Ledled y Fro	50

### Data Dilyniant Cylich Meithrin i Addysg Cyfrwng Cymraeg 2019/2020

Cylchoedd Meithrin	Nifer y plant sy'n mynychu	Nifer sy'n trosglwyddo i CC	Nifer sy'n trosglwyddo i CS	% sy'n trosglwyddo i CC
Cylch Meithrin Llanilltud Fawr	29	27	2	93.10%
Cylch Meithrin Dechrau Dysgu	27	26	1	96.30%

Cylchoedd Meithrin	Nifer y plant sy'n mynychu	Nifer sy'n trosglwyddo i CC	Nifer sy'n trosglwyddo i CS	% sy'n trosglwyddo i CC
Cylch Meithrin Bethel	19	16	3	84.21%
Cylch Meithrin Bethesda	20	17	3	85%
Cylch Meithrin Dinas Powys	16	12	4	75%
Cylch Meithrin Y Bont-faen	30	17	13	56.67%
Cylch Meithrin Pili Pala	42	36	6	85.71%

## Nifer y plant sy'n mynychu unedau Meithrin Cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd 2018 - 2021

Ysgol	Nifer y lleoedd sydd ar gael 2018/2019	Nifer ar y Gofrestr 2018/2019	Nifer y lleoedd sydd ar gael 2019/2020	Nifer ar y Gofrestr 2019/2020	Nifer y lleoedd sydd ar gael 2020/2021	Nifer ar y Gofrestr 2020/2021
Ysgol Iolo Morgannwg	30	30	30	30	66*	43
Ysgol Dewi Sant	52	48	56*	49	56	41
Ysgol Pen-y-garth	76	64	76	70	76	65
Ysgol Gwaun y Nant	82	54	82	53	82	42
Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	56	53	56	56	56	56
Ysgol Sant Baruc	48	46	48	48	48	48
Ysgol Sant Curig	114	85	114	107	114	111
<b>Cyfanswm</b>	<b>458</b>	<b>380</b>	<b>462</b>	<b>413</b>	<b>498</b>	<b>406</b>

Nifer ar y Gofrestr ar gyfer y flwyddyn academaidd - tîm data derbyn i ysgolion

\*Cynnydd mewn lleoedd

Ar gyfer 2020/21, derbyniwyd 251 o blant oedran derbyn (15.91%) o gyfanswm y garfan dderbyn i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Mae cynnydd ar y cyfan wedi bod yn nifer y disgyblion sy'n mynd i unedau meithrin ysgolion dros y 3 blynedd diwethaf. Bydd y Cyngor yn gweithio i sicrhau bod hyn yn parhau yn unol â gweledigaeth y Cyngor yn y dyfodol o ran darpariaeth addysg Gymraeg. Yn 2020/21, roedd nifer y dysgwyr a fynychodd ddarpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg yn cynrychioli twf o 7% ar y nifer oedd ar y gofrestr yn 2018/19. Ar gyfer mis Medi 2022 bydd y Cyngor yn cyflwyno 48 o leoedd meithrin ychwanegol yn Ysgol Sant Baruc pan fydd yn ehangu ac yn adleoli i adeilad ysgol newydd ar ddatblygiad Glannau'r Barri.

## Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Fel rhan o Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu'r Cyngor (Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt), mae'r Cyngor eisoes wedi cynllunio cynyddu'r ddarpariaeth feithrin Gymraeg. Mae adeilad ysgol gynradd 2 ddosbarth mynediad newydd yn cael ei godi ar ddatblygiad newydd Glannau'r Barri. Bydd Ysgol Sant Baruc yn trosglwyddo i adeilad newydd yr ysgol ar ôl ei gwblhau, gan ddyblu nifer y lleoedd meithrin sydd ar gael gyda 48 o leoedd rhan-amser ychwanegol.

Ymrwymodd y Cyngor hefyd i gynyddu'r ddarpariaeth feithrin Gymraeg yn y dyfodol pan gymeradwyodd Cabinet y Cyngor ddull graddol o gynyddu capasiti cynradd yn y Bont-faen. Mae safle ysgol newydd wedi'i sicrhau fel rhan o ddatblygiad tai 'Tir i'r gogledd a'r gorllewin o Darren Close' drwy gytundeb adran 106. Mae'r safle wedi'i glustnodi i hwyluso twf cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Disgwylir i'r safle gael ei drosglwyddo i'r Cyngor yn 2022. Bydd cynnig addysg ffurfiol

yn cael ei ddatblygu maes o law, a fyddai'n destun ymgynghoriad gydag ymgynghoreion rhagnodedig a bod y cyllid perthnasol ar gael i gefnogi'r seilwaith gofynnol.

Bydd cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg i gefnogi Cynllun y Cyngor yn ystyriaeth allweddol fel rhan o ddatblygu Rhaglen Amlinellol Strategol y Cyngor ar gyfer camau pellach o Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn y dyfodol.

Y disgwyl oedd y byddai darparu ysgol gynradd Gymraeg o fewn ardal Y Bont-faen yn dod yn ei blaen wedi 2024 yn unol â'r drefn ariannu nesaf ar gyfer Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu gan Lywodraeth Cymru yn 2026/27. Ond mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau'r ail gyfran o'r Grant Cyfalaf Cyfrwng Gymraeg sy'n cynnwys £30 miliwn ar gyfer Cymru gyfan. Mae hyn yn gyfle i'r Cyngor gyflawni'r cynllun hwn yn gynt na'r disgwyl yn flaenorol. Mae'r Cyngor yn adolygu opsiynau posib fyddai'n caniatáu i'r cynllun gael ei gyflawni erbyn mis Medi 2024. Oherwydd y goblygiadau o ran cyllid, mae'n anodd darparu amserlen ddiffiniol ar gyfer y cynnig ar hyn o bryd, fodd bynnag, dangosir y cerrig milltir dangosol sy'n cael eu dilyn gan y Cyngor isod:

<b>Gweithgaredd Cerrig Milltir</b>	<b>Amserlen</b>
Ymgynghoriad ar y Cynnig	Mawrth - Medi 2022
Penodi Contractwyr (Cam 1)	Medi 2022
Cais Cynllunio	Tachwedd 2022 – Mawrth 2023
BJC	Mawrth 2023
Penodi Contractwyr (Cam 2)	Mawrth 2023
Dechrau ar y Safle	Ebrill 2023
Cwblhau'r Adeilad yn Gorfforol	Gorffennaf 2024
Meddiannu	Medi 2024
Cwblhau'r prosiect	Medi 2024

Gall yr amserlen yma newid, ond bydd unrhyw gynigion yn y dyfodol o ran addysg Gymraeg yn ystyried darpariaeth ychwanegol wedi'i hanelu at gynyddu siaradwyr Cymraeg ar gyfer pob grŵp oedran, fel gofod integredig gyda Dysgu Oedolion a Chymunedol gan gynnwys ystyried canolfan adnoddau sy'n canolbwyntio ar y Gymraeg.

### **Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Ein gweledigaeth ddeng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella'r gwaith o gynllunio darpariaeth addysg Gymraeg ym Mro Morgannwg fydd cynyddu nifer y plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg i 24%, a bennwyd gan Lywodraeth Cymru erbyn 2031/32. Mae hyn yn cyfateb i agor tua 390 o leoedd blwyddyn un erbyn 2031/32 yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth cyfredol.

### **Data Allweddol**

#### **Niferoedd a % y plant 3 oed ym Mro Morgannwg sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg**

Mae'r tabl yn nodi nifer a chanran arfaethedig y plant oedran meithrin/plant 3 oed sydd angen addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mro Morgannwg bob blwyddyn i fodloni cynnydd o 24%

erbyn 2031-2032. Mae angen 593 o leoedd meithrin yn gyffredinol. Ar hyn o bryd mae 18% o blant yn derbyn eu haddysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg.

2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
453	18%	465	19%	492	20%	497	20%	517	21%
2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	
541	22%	549	22%	567	23%	590	24%	593	24%

Mae'r Cyngor yn disgwyl i tua 62% o blant mewn meithrinfa fynd ymlaen i ddosbarth derbyn mewn ysgol y flwyddyn ganlynol, sy'n cael eu hadnabod fel y rhai sy'n codi'n 4.

### Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP)

Cynhaliwyd yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant diweddaraf yn 2017. Yn ogystal, mae adroddiad ynghyd â'r Cynllun Gweithredu yn cael eu diweddarau'n flynyddol a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Bydd y Cyngor yn cwblhau Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) llawn eleni i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2022. Cynhelir ymgynghoriadau gydag ystod amrywiol o bartneriaid a sefydliadau ynghyd â rhieni a darparwyr gofal plant i gasglu data penodol ar gyfer yr ADGP. Yn ei dro bydd y data hwn yn llywio cynllunio a chefnogi gwasanaethau Cymraeg gan gynnwys Cylchoedd Meithrin, grwpiau gweithgareddau cyfrwng Cymraeg, Ti a Fi ac ati. Nid yw'r ymateb cyhoeddus i Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) wedi bod yn gryf yn y gorffennol gyda chyfradd ymateb isel. Bydd ffyrdd arloesol a chreadigol yn cael eu hystyried yn unol â strategaeth hyrwyddo'r Cyngor i annog trigolion y sir i ymateb, er enghraifft defnydd helaeth o'r cyfryngau cymdeithasol, gwefannau, cynnig gwobrau ac ati. Cydnabyddir mai gyrru'r galw ac nid ymateb i'r galw canfyddedig yn unig yw'r hyn sydd ei angen i gyrraedd ein targed o 24% o ddysgwyr Blwyddyn 1 yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2031/32. Er mwyn cael adborth defnyddiol am resymau pam nad yw pobl yn defnyddio gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg, bydd dulliau eraill o gasglu'r data hwn yn cael eu harchwilio, gan gynnwys y potensial ar gyfer holiaduron mwy penodol ac wedi'u targedu.

### Sut fydd y Cyngor yn rhoi gwybodaeth i rieni a gofalwyr am argaeledd a math y ddarpariaeth addysg Gymraeg sydd ar gael ym Mro Morgannwg waeth beth fo'u cefndir ieithyddol

Mae gwybodaeth ar gael drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD) a Dewis sy'n annog rhieni a gofalwyr i edrych ar gyfleoedd darpariaeth a gweithgareddau gofal plant Cymraeg p'un a oes ganddynt gefndir o siarad Cymraeg ai peidio. Bydd cyfleoedd i sicrhau fod rhieni a gofalwyr o gefndiroedd ieithyddol eraill, ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg, yn ymwybodol o fanteision addysg ddwyieithog yn cael eu nodi ac y gweithredir arnynt fel rhan o gynllunio camau gweithredu Grŵp Marchnata a Hyrwyddo'r CSCA a'r fforwm CSCA ehangach. Manteisir yn llawn ar gyfleoedd i gynyddu dosbarthu'r neges gan gynnwys mwy o ddefnydd o'n llyfrgelloedd, Canolfannau Dysgu Bro, ysgolion, a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei hadolygu i sicrhau ei bod yn glir ac yn hawdd ei defnyddio. Bydd y Cyngor yn edrych ar ffyrdd o hyrwyddo'r opsiwn Cymraeg yn gyntaf. Bydd ffyrdd o

gyrraedd rhieni a gofalwyr sy'n anghyfforddus gyda darllen a deall yn cael eu harchwilio a bydd fideos ychwanegol yn cael eu creu ar gyfer y wefan/safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Bydd hyn yn gyfrifoldeb allweddol i grŵp Marchnata a Hyrwyddo CSCA'r Fro a bydd yn cael ei fonitro drwy adroddiadau cynllunio camau gweithredu blynyddol gan fforwm ehangach y CSCA.

Bydd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD) yn hyrwyddo Cylchoedd Meithrin Cymraeg, Cylch Ti a Fi a grwpiau cyfrwng Cymraeg cyn-ysgol eraill i bob rhiant a gofalwr sy'n cysylltu â'r gwasanaeth.

Bydd y GGiD yn cyfeirio rhieni a gofalwyr at dudalen we "[eich taith ddwyieithog](#)" a bydd yn diweddarau ac yn rhannu'r llyfryn '[Bod yn Ddwyieithog](#)' wrth ryngweithio â nhw.

Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg i rieni a gofalwyr gan gynnwys Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant a Menter er mwyn datblygu a gwella gwasanaethau i blant cyn oed ysgol.

Mae Consortiwm Canolbarth y De (CCD) hefyd wedi cynhyrchu nifer o ddogfennau defnyddiol:

- |  |   |
|--|---|
| Cynradd - <a href="#">Fersiwn Cymraeg</a>  | - Cefnogi eich plentyn i ddefnyddio'r Gymraeg gartref                           |
| Cynradd - <a href="#">Fersiwn Saesneg</a>  | - Supporting your child to use the Welsh language at home                       |
| Uwchradd - <a href="#">Fersiwn Cymraeg</a> | - Cefnogaeth i rieni a gofalwyr dysgwyr mewn ysgolion uwchradd                  |
| Uwchradd - <a href="#">Fersiwn Saesneg</a> | - Guidance for parents and carers of learners in Welsh medium secondary schools |

Bydd gwybodaeth am addysg Gymraeg ar gael i bob rhiant a gofalwr yn [y canllaw i rieni ar dderbyniadau i ysgolion](#) a gwefan y Cyngor, gan roi manylion y [trefniadau derbyn i'r ysgol](#) a chyngor ar yr ysgolion sydd ar gael. Bydd rhieni/gofalwyr yn cael gwybodaeth am argaeledd a math yr addysg Gymraeg wrth wneud ymholiadau dros y ffôn neu'n ysgrifenedig ynghylch derbyniadau i ysgolion ar gyfer eu plentyn. Bydd hyn yn cynnwys cyngor ynghylch dalgyloedd ysgolion a chyngor ynghylch y ddarpariaeth Gymraeg agosaf sydd ar gael nesaf, os oes ysgol ddalgylch wedi'i thanysgrifio'n llawn. Darperir gwybodaeth hefyd am drochi, cludiant a'r cymorth arall sydd ar gael os ydynt wedi colli rhan o'u haddysg neu os ydynt yn trosglwyddo o ysgol cyfrwng Saesneg i ysgol Gymraeg ar ôl y cyfnod derbyn cychwynnol.

Er mwyn sicrhau bod pob cyfle i hyrwyddo dwyieithrwydd yn cael ei archwilio, bydd cynlluniau hyrwyddo mwy rhagweithiol yn cael eu rhoi ar waith. Cydnabyddir nad yw sicrhau bod cynnig gwybodaeth sy'n ymwneud ag opsiynau addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn ddigon. Mae angen meddwl a hyrwyddo yn greadigol er mwyn cyfleu neges i rieni a gofalwyr bod gofal ac addysg cyfrwng Cymraeg ar gael ac yn briodol i'w plant. Mae angen i gyfleoedd gofal ac addysg Gymraeg fod yn hawdd eu cyrchu, yn ddeniadol ac yn gynhwysol i rieni a gofalwyr. Rhaid dangos bod y dewis yn hawdd ac yn ddewis cwbl briodol i bob rhiant a gofalwr.

Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg i nodi cyfleoedd i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr a chynnig gwybodaeth i hyrwyddo addysg Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys darparu cymorth priodol lle bo angen. Bydd yr holl gynnydd yn erbyn camau gweithredu yn cael ei gynnwys yn y traciwr adrodd ar gamau gweithredu blynyddol a fydd yn destun craffu ar lefel Prif Swyddog.



Mae cyfleoedd i weithio'n agosach gydag ymwelwyr iechyd a bydwagedd yn cael eu cynllunio a bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig i gydweithwyr staff iechyd er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus ac yn gyfforddus gyda thrafodaethau â rhieni a gofalwyr yn ymwneud â gofal plant ac addysg Gymraeg.

Mae'r Cyngor yn ymgysylltu ag ymgyrchoedd a rhaglenni marchnata Llywodraeth Cymru i gefnogi ein gwaith o hyrwyddo addysg Gymraeg ym Mro Morgannwg a chaiff ei ddatblygu ymhellach yn CSCA 2022-2032 y Fro. Mae cyfrif twitter Consortiwm Canolbarth y De (CDC) – CCD Cymraeg / Siarter Iaith – hefyd yn rhannu gwybodaeth allweddol gydag ysgolion. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD) yn rhannu negeseuon cyfryngau cymdeithasol cenedlaethol gan Cymraeg i Blant a hefyd yn lleol gan gynnwys eu sesiynau amser stori a thyllino babanod.

Drwy rwydweithio Fforwm y CSCA, mae cyfle hefyd i randdeiliaid allanol fel Menter Bro Morgannwg hyrwyddo deunyddiau'r Cyngor ac eraill yn eu sgysiau gyda rhieni/darpar rieni a gofalwyr sy'n mynychu eu gweithgareddau. Fel Cyngor, byddwn yn gwrando er mwyn deall yr heriau'n well a chyfeirio unigolion at wybodaeth gyfredol am y daith ddwyieithog. Byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth o addysg Gymraeg, yn hyrwyddo dwyieithrwydd a symleiddio'r broses ar gyfer rhieni a gofalwyr.

### **Sut fydd y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o wybodaeth sy'n hyrwyddo manteision dwyieithrwydd ac amlieithrwydd**

Caiff cyfleoedd i hyrwyddo'r buddion sy'n dod yn sgil dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn cael eu hadnabod a'u dilyn ar draws pob maes o'r Cyngor. Er enghraifft, rydym yn archwilio cyfleoedd i recriwtio Swyddog Addysg Gymraeg a Swyddog Ti a Fi peripatetig a fyddai'n gallu cydweithio ar draws holl feysydd y Cyngor a chyda grwpiau rhwydweithio eraill. Rôl Swyddog Ti a Fi yw trefnu cyfleoedd i rieni gwrdd â rhieni / gofalwyr eraill gyda'u plant a mwynhau gweithgareddau, e.e. crefftau, canu, gwrando ar straeon Cymraeg. Mynychu sesiynau Ti a Fi yw un o'r cyfleoedd cyntaf sydd gan rieni i glywed yr iaith a gweld eu plant yn ymateb iddi. Gall swyddog Ti a Fi rannu gwybodaeth am ofal ac addysg Gymraeg o fewn y sir ac ymateb i gwestiynau/pryderon rhieni mewn amgylchedd cyfeillgar a chefnogol. Byddai hyn yn cefnogi codi ymwybyddiaeth ar lefel fwy micro mewn meysydd penodedig, e.e. lle mae lleoedd gwag mewn rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Cyngor yn diweddarau ei dudalen gwe ['eich taith ddwyieithog'](#) a'r llyfryn "[Bod yn ddwyieithog](#)" gyda gwybodaeth ddefnyddiol i rieni ond mae angen i'r gynulleidfa hon fod yn ehangach a byddwn yn edrych ar ffyrdd o ymestyn hyn fel rhan o'n gwaith cynllunio camau gweithredu blynyddol. Bydd y Cyngor yn parhau i ddiweddarau'r adnoddau sydd ar gael ac yn nodi cyfleoedd i ddsbarthu'r holl ddeunyddiau perthnasol i rieni. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi bod yn cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn cymunedau newydd drwy gymeradwyo'r gwaith o gofi adeiladau ysgol newydd o fewn datblygiadau tai mawr. Yn ystod y gwaith adeiladu, bydd y Cyngor a'r ysgol yn ymgysylltu â'r gymuned i hyrwyddo manteision addysg Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno copiâu o'r llyfryn ['Bod yn Ddwyieithog'](#) a deunyddiau eraill a nodwyd fel rhan o'n cynllunio camau gweithredu.

Gallai pryderon gan rieni a gofalwyr amlygu eu hunain o sawl cyfeiriad gan gynnwys galwadau i'r GGiD, canolfan gyswllt y Cyngor neu sefydliadau eraill. Mae hyn yn ddata hynod ddefnyddiol wrth ystyried naws a chynnwys yr wybodaeth a gynnigir i rieni a chaiff yr wybodaeth hon ei

defnyddio i lywio gwaith cynllunio a chyhoedduswydd yn y dyfodol ynghylch ein huchelgeisiau a'n cynnydd.

Mae'r Cyngor yn anfon arolwg at rieni a gofawyr yn flynyddol am y broses dderbyn ar y pwynt mynediad cychwynol i'r ysgol megis adeg derbyn i ysgolion. Bydd yr arolwg yn ceisio barn rhieni a gofawyr ar y broses dderbyn ac yn gofyn am adborth ynghylch sut y gellir ei gwella. Mae'r tîm derbyn yn archwilio'n weithredol benderfyniadau rhieni i newid o addysg cyfrwng Cymraeg i addysg cyfrwng Saesneg wrth fynd i ysgol uwchradd er enghraifft. Ystyrir yr holl sylwadau i wella'r gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol ac i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a gaiff eu codi.

Y llwybr i gefnogi pryderon rhieni a gofawyr ynghylch gwasanaethau blynyddoedd cynnar yw drwy'r Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Mae cysylltu â sefydliadau partner sy'n hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn hanfodol wrth fynd i'r afael â'r pryderon hyn a cheisio eu datrys.

Mae gweithio gyda'n partneriaid allanol hefyd yn bwysig wrth fynd i'r afael â phryder rhieni a gofawyr. Mae staff Menter Bro Morgannwg, er enghraifft, yn cael cyfle i gynnal sgysiau gyda rhieni/darpar rieni a gofawyr sy'n mynychu'r gweithgareddau hyn er mwyn deall yr heriau'n well, gan weithio gydag eraill i godi ymwybyddiaeth o addysg Gymraeg a symleiddio'r broses ar gyfer rhieni a hyrwyddo dwyieithrwydd.

Mae gan Fenter Bro Morgannwg gysylltiad â nifer o deuluoedd sy'n mynychu eu darpariaeth (dan 5 oed) gan gynnwys sesiynau Amser Stori, digwyddiadau tymhorol (e.e. miri haf, miri Hydref, miri Nadolig) a chlybiau ar gyfer plant cyn oed ysgol. Drwy weithio'n agos gyda'n partneriaid, byddwn yn sicrhau bod yr holl gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu a hyrwyddo yn cael eu harchwilio.

Agorwyd uned Drochi newydd y Fro yn ystod tymor y Gwanwyn yn 2022 ac mae'r gweithgaredd hyrwyddo hyd yn hyn wedi canolbwyntio ar sefydlu hunaniaeth i'r ganolfan yn y Fro. Mae ymarferiad brandio wedi'i gwblhau i roi hunaniaeth ddylunio i'r ysgol, gan gynnwys logo, paled lliw, a golwg a theimlad cyffredinol. Mae gwaith bellach ar y gweill i hyrwyddo'r ganolfan gan ddefnyddio cyflawniadau'r garfan gyntaf o ddisgyblion i raddio. Bydd hyn yn canolbwyntio ar y gwelliannau sylweddol yn eu sgiliau iaith Gymraeg yn ogystal â phrofiad positif y disgyblion o'r ganolfan. Mae'r ymgyrch yn cael ei hamseru i gyd-fynd â diwedd tymor yr haf er mwyn targedu adeg ble mae'n bosib y bydd rhai rhieni a disgyblion yn ystyried trosglwyddiad ysgol.

Ategir y gwaith hwn gan ymgyrch dreigl y Cyngor o ddatlu llwyddiant yn ei hysgolion, sy'n amlygu'n aml gyflawniadau disgyblion Cymraeg yn y cyfryngau lleol yn ogystal â thrwy ei sianeli ei hun, yn ogystal â'i ddefnydd cynyddol o'r Gymraeg achlysurol ym mhob gohebiaeth allanol.

Erbyn hyn mae'r Cyngor yn cyflogi nifer o swyddogion sy'n siarad Cymraeg yn ei dîm Cyfathrebu. Bydd y swyddogion hyn yn gweithio'n agos â'r tîm Dysgu a Sgiliau yn y dyfodol i ddatblygu taith newydd i'r ymgyrch hirsefydlog Bod yn Ddwyieithog, a gynlluniwyd i gynnig sicrwydd i'r rhieni a'r disgyblion hynny a allai fod â phryderon am ddysgu drwy ail iaith. Rhagwelir y bydd yr ymgyrch aml-sianel hon yn adeiladu ar lwyddiant gwaith blaenorol ac yn cynnig pecyn cymorth digidol o adnoddau i ysgolion a meithrinfeydd Cymraeg i helpu gweithwyr addysg proffesiynol i hyrwyddo manteision addysg Gymraeg ar y cam cynharaf.

Bydd ein hymgyrch Bod yn Ddwieithog yn cyd-fynd ag ymgyrch genedlaethol Cymraeg i Blant i sicrhau bod ein cynnig yng Nghymru yn unol â'r ymgyrch genedlaethol ehangach i hybu dysgu drwy'r Gymraeg.

<https://meithrin.cymru/cymraeg-i-blant/>

<https://meithrin.cymru/manteisionaddysggymraeg/>

## **Tîm Derbyn i Ysgolion, y broses ymgeisio a chategoreiddio ysgolion**

Tîm derbyn i ysgolion y Cyngor yw'r pwynt cyswllt cyntaf i'r rhan fwyaf o rieni a gofalwyr ac mae'r tîm hefyd yn gyfrifol am gynhyrchu canllaw i rieni'r Cyngor ar dderbyniadau i ysgolion ar y cyd ag adrannau perthnasol y Cyngor. Mae'r tîm derbyn yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD) i sicrhau bod y wybodaeth briodol ar gael i rieni a gofalwyr i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am addysg eu plant gan gynnwys y ddarpariaeth Gymraeg. Mae'r canllaw i rieni ar gael i bob rhiant a gofalwr ar wefan y Cyngor. Mae cynrychiolydd o'r tîm derbyn yn mynychu is-grŵp Marchnata a Hyrwyddo fforwm y CSCA a bydd yn sicrhau fod yr holl farchnata a dogfennaeth polisi yn adlewyrchu trafodaethau a champau gweithredu'r grŵp.

Mae'r broses dderbyn ar-lein yn adlewyrchu'r daith y mae rhieni'n ei gwneud wrth wneud cais ysgol. Mae'r holl wybodaeth a ddarperir ar wefan Cyngor Bro Morgannwg hefyd ar gael ar y porth ymgeisio ar-lein y mae rhieni a gofalwyr yn ei ddefnyddio i gyflwyno cais eu plentyn. Caiff y broses ar-lein ei hadolygu'n flynyddol a rhoddir ystyriaeth i wella'r broses i amlygu addysg Gymraeg ac i roi digon o wybodaeth i rieni a gofalwyr er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am addysg eu plant.

Mae'r Cyngor wedi bod yn ystyried sut mae categoreiddio ysgolion yn ôl addysg cyfrwng Cymraeg, yn unol â'r ymgynghoriad diweddar ar gategoreiddio ysgolion a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru, yn effeithio ar ddewis rhieni. Byddai categoreiddio ysgolion yn rhoi cyfle i rieni ddeall y ddarpariaeth sydd ar gael iddynt i gynyddu cyfleoedd i fynd i addysg Gymraeg. Yn unol â'r Cwricwlwm newydd i Gymru, byddai'n cefnogi'r continwmm dilyniant a disgwyliadau o ran caffael y Gymraeg ar draws pob lleoliad ysgol.

Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal adolygiad o drefniadau derbyn yn flynyddol. Bydd hyn yn cynnwys nodi ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd â chapasiti sy'n llai na 10%. Bydd hyn yn llywio rhan o ofynion buddsoddi'r Cyngor yn y dyfodol ac yn benodol, datblygu Strategaeth Buddsoddi Dysgu a Sgiliau'r Cyngor.

## **Darpariaeth Gymraeg a'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ym Mro Morgannwg**

Mae'r Cyngor yn cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn rhan o'i Raglen Amlinellol Strategol (RhAS) ar gyfer Band B Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi £21.5m yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg i gynnig 299 o leoedd uwchradd ychwanegol, yn ogystal â gwella'r cyfleusterau presennol. Mae'r Cyngor hefyd wedi dyrannu £8.5m i adeiladu adeilad ysgol gynradd newydd â 420 ar ddatblygiad tai Glannau'r Barri. Bydd hyn hefyd yn cynnwys capasiti ar gyfer 96 o leoedd meithrin rhan-amser. Ar ôl ei gwblhau, bydd Ysgol Sant Baruc yn trosglwyddo i'r adeilad newydd, gan ddarparu 210 o leoedd cynradd a 48 o leoedd meithrin rhan-amser ychwanegol. Dyfarnwyd grant o £800,000 i'r Cyngor hefyd i adeiladu cyfleuster

newydd yn Llanilltud Fawr i ddarparu Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru. Adeiladwyd hwn ar safle Ysgol Gymraeg Dewi Sant ac mae bellach yn gartref i [Gylch Meithrin Llanilltud Fawr](#).

Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol i hwyluso darpariaeth Gymraeg eisoes wedi'u nodi, megis y cynnig i ymestyn darpariaeth Gymraeg yn y Bont-faen. Mae dichonoldeb cychwynnol yn awgrymu y gallai'r safle gynnwys ysgol gynradd 420 lle, gyda 48 o leoedd meithrin rhan amser er mwyn ateb y galw yn y dyfodol. Byddai hyn yn destun ymgynghori ac ariannu.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn datblygu ei Strategaeth Fuddsoddi Dysgu a Sgiliau newydd ochr yn ochr â'r CSCA i sicrhau bod y targedau a'r ymrwymadau yn llywio buddsoddiadau yn y dyfodol. Bydd hyn yn cael ei fonitro fel rhan o'n cynllunio camau gweithredu blynyddol y CSCA.

## **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a Mudiad Meithrin**

Mae Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBC GP) yn bartneriaeth sydd wedi bodoli ers dros 15 mlynedd ac sy'n dwyn ynghyd sefydliadau a phartneriaid gan gynnwys lechyd, gwasanaethau gwirfoddol y trydydd sector (gan gynnwys Mudiad Meithrin) a staff Awdurdodau Lleol gan gynnwys partneriaid Dechrau'n Deg, y Blynyddoedd Cynnar ac ati. Mae'r bartneriaeth yn hyrwyddo ac yn datblygu gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gofal plant o ansawdd da o fewn yr awdurdod, yn cefnogi'r gwaith o ddarparu cyfres o raglenni cymorth ariannol i gynorthwyo lleoedd gofal plant newydd ynghyd â chynnal y ddarpariaeth bresennol a chefnogi amrywiaeth o ddarpariaeth a dewis i rieni ynghyd â'r cyngor a'r cymorth sydd ar gael i rieni ar ba ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael.

Mae aelodau PDBC GP yn rhagweithiol wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg, i gefnogi gwaith yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) a'r Cynllun Gweithredu ac yn rhoi mewnbwn gwerthfawr i fentrau newydd sy'n dod gan Lywodraeth Cymru, er enghraifft y Cynnig Gofal Plant i Gymru. Bwriedir cynnal trafodaethau strategol am ddatblygu gofal ac addysg Gymraeg ym Mro Morgannwg, gan gynnwys trafodaeth ynglŷn â'r cynllun SAS (Sefydlu a Symud).

## **Dechrau'n Deg**

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cynnig 44 lle gofal plant Dechrau'n Deg drwy gyfrwng y Gymraeg, ar gyfer plant 2-3 oed. Mae'r gwasanaeth hwn yn cefnogi plant sydd naill ai'n byw yn ardaloedd Dechrau'n Deg a ddiffinnir yn ôl amddifadedd, neu sydd wedi cael eu cyfeirio at ein gwasanaeth 'allgymorth'. Nid oes gennym broblemau capasiti yn ein lleoliadau Cymraeg ar hyn o bryd, ac mae pob teulu'n cael cynnig cyfrwng Cymraeg a Saesneg fel dewis cydradd. Cefnogir dewis cyntaf rhieni boed hynny'n ddarpariaeth Gymraeg neu Saesneg. Mae Dechrau'n Deg yn cynnig cymorth allgymorth ar gyfer pob elfen arall o Dechrau'n Deg – mae gofal plant yn gyfyngedig ond ar gael yn y Barri pe bai ei angen.

Cyflwynodd Dechrau'n Deg Ti a Fi drwy dîm y Blynyddoedd Cynnar yn ardaloedd Dechrau'n Deg am dros 3 blynedd a chawsant eu hyrwyddo'n weithredol drwy'r tîm, gan y GGiD a Mudiad Meithrin. Fodd bynnag, roedd y nifer o deuluoedd a fanteisiodd yn isel ac yn gyndyn gwnaed y penderfyniad i gau'r ddarpariaeth. Mae'r tîm wedi bod yn ystyried datblygu grŵp Ti a Fi ynghlwm wrth ein Lleoliad Cymraeg, Pili-Pala, fel rhan o'r pontio i ddarpariaeth Gymraeg, ond wrth i'r pandemig daro, cafodd pob grŵp ei gau, ac ni ddatblygwyd unrhyw wasanaethau newydd. Byddwn yn ymgysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol sydd ynghlwm â hyn gan gynnwys cynnal sgorsiau cychwynnol gyda Mudiad Meithrin.

O fewn lleoliadau Dechrau'n Deg cyfrwng Saesneg, mae gennym arweinydd iaith Gymraeg ac mae'r Rheolwr Gofal Plant yn siarad Cymraeg ac yn cefnogi'r tîm i hyrwyddo'r Gymraeg yn gadarnhaol drwy weithgareddau, caneuon, rhigymanau a straeon.

Mae Glannau'r Barri yn ardal allgymorth ar gyfer Dechrau'n Deg a bydd y Cyngor yn edrych ar gyfleoedd i gydweithio i wneud y defnydd gorau posibl o unrhyw le sydd ar gael ar safle'r ysgol newydd. Bydd nifer o leoedd dros ben yn yr ysgol pan fydd yn agor felly bydd ceisiadau i gael defnyddio'r gofod hwn i gefnogi teuluoedd a dysgu cyfrwng Cymraeg yn cael eu hystyried yn weithredol. Bydd y Cyngor hefyd yn ceisio manteisio i'r eithaf ar unrhyw grantiau penodol i gefnogi twf cyfrwng Cymraeg ar Lannau'r Barri, gan gynnwys a oes cyfle i gefnogi darpariaeth Gymraeg cyn ysgol (addas i blant 2 oed) ar gyfer Dechrau'n Deg a chymorth allgymorth. Bydd cyfleoedd i fuddsoddi yn y maes hwn yn cael eu hystyried yn unol â'r Strategaeth Fuddsoddi Dysgu a Sgiliau.

Byddai gofyn i Reolwr Cyfrifon Llywodraeth Cymru gymeradwyo unrhyw ddatblygiadau o ran Dechrau'n Deg, a gofal plant yn fwy penodol, gan fod Dechrau'n Deg yn brosiect sy'n cael ei ariannu a'i adolygu'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru.

### **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD)**

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD) yn hyrwyddo addysg a grwpiau Cymraeg i'r holl rieni a gofawyr sy'n cysylltu â'r gwasanaeth. Maent yn darparu manylion grwpiau cyn ysgol fel Cylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi ac maent yn gweithio'n agos gyda sefydliadau gan gynnwys Cymraeg i Blant, Menter Bro Morgannwg a Mudiad Meithrin, i hyrwyddo unrhyw grwpiau a chlybiau y maent yn eu rhedeg.

Mae'r GGiD yn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael ar wefan Dewis Cymru, sy'n bwydo drwodd i wefan genedlaethol GGiD Cymru [www.ggd.cymru](http://www.ggd.cymru) ac mae'n rhannu negeseuon drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy e-fwletinâu. Bydd y GGiD yn ychwanegu dolenni at dudalen gwe [Bod yn Ddwyieithog](#) a ddiweddarwyd o'u [tudalennau gwe Ardal y Teulu](#).

Mae gweithio mewn partneriaeth â Cymraeg i Blant, Mudiad Meithrin a sefydliadau eraill yn mynd rhagddo drwy waith Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP) a chyfarfodydd/fforymau eraill sy'n digwydd yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae gan PDBCGP berthynas waith dda gyda phartneriaid CWLWM (Blynyddoedd Cynnar Cymru, cymdeithas PACEY, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA), Mudiad Meithrin a Chlybiau Plant Cymru Kids' Clubs) y mae pob un ohonynt yn hyrwyddo magu plant yn ddwyieithog drwy eu gwahanol sefydliadau. Bydd cyfleoedd i gryfhau'r perthnasoedd hyn a nodi targedau heriol i gefnogi ein huchelgeisiau CSCA yn cael eu hadlewyrchu yn ein cynllunio camau gweithredu a'n hadolygiadau perfformiad blynyddol.

### **Dysgu Oedolion yn y Gymuned a dysgu Cymraeg**

Dysgu Cymraeg y Fro - Mae Dysgu Cymraeg y Fro yn rhan o ddarpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Cyngor Bro Morgannwg. Mae'n darparu ystod lawn o gyfleoedd dysgu i bobl dros 16 oed, i wella eu sgiliau Cymraeg. Gan gydweithio â phartneriaid gan gynnwys Mudiad Meithrin,

Menter Bro Morgannwg, yr Urdd ac adrannau eraill y Cyngor, mae'n hyrwyddo Dysgu Cymraeg yn eang. Mae rhannu gwybodaeth am gyrsiau a digwyddiadau gydag adran farchnata'r Cyngor a chyda'n holl bartneriaid, manteisio i'r eithaf ar y cyfryngau cymdeithasol a chynnwys ysgolion yn y marchnata digidol yn galluogi Dysgu Cymraeg y Fro i gynyddu ei broffil.

Mae'n gweithio gydag ysgolion i hyrwyddo cyfleoedd dysgu i rieni ac mae'n cynnig mynediad wedi'i ariannu (am ddim) at gyrsiau i holl staff yr ysgol, mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Mae'r cynnig hwn, a wneir mewn partneriaeth ag adran Cydraddoldebau'r Cyngor, hefyd yn ariannu lleoedd ar gyrsiau Dysgu Cymraeg y Fro i holl staff y Cyngor.

Mae Mudiad Meithrin hefyd yn cynnig 'Clwb Cwtsh' sy'n gwrs rhagflas 8 wythnos am ddim i rieni ar lefel sylfaenol.

Bydd y Cyngor hefyd yn anelu at gyflwyno uned drochi o fewn yr Awdurdod gyda darpariaeth i oedolion. Dros dro, mae uned drochi yn cael ei chynnig fel rhan o'r prosiect ar gyfer Ysgol Gymraeg yn Y Bont-faen. Uned hunangynhwysol fyddai'r uned hon yn yr ysgol arfaethedig a fyddai'n darparu lleoliadau trochi cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â chynnig gwersi Cymraeg i oedolion, yn enwedig y rhai sy'n byw o fewn yr ardal breswyl gyfagos i safle arfaethedig yr ysgol. Byddai cyflwyno'r agwedd hon ar y cynnig yn destun i'r ymgynghoriad perthnasol a'r cyllid sydd ar gael.

### **Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008**

Mae'r Cyngor yn darparu cludiant ysgol am ddim i bob disgybl sy'n byw:

- 2 filltir neu fwy o'i ysgol gynradd dalgyllch (ail agosaf os yw'r dalgyllch yn llawn)
- 3 milltir neu fwy o'i ysgol uwchradd dalgyllch (ail agosaf os yw'r dalgyllch yn llawn)

Mae'r Cyngor yn darparu hyn yn benodol ar gyfer pob ysgol ddalgyllch Gymraeg ym Mro Morgannwg.

Nifer y disgyblion y cynigiwyd cludiant am ddim i'r ysgol iddynt ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21:

- Ysgol Dewi Sant – 36
- Ysgol Iolo Morgannwg – 96
- Ysgol Pen Y Garth – 36
- Ysgol Sant Curig – 11
  
- Ysgol Bro Morgannwg - 499

O dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru), nid oes gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion oed meithrin na'r rhai rhwng 16 a 19 oed. Mae Cyngor Bro Morgannwg, yn ôl ei ddisgresiwn, yn darparu cludiant am ddim i'r rhai rhwng 16 a 19 oed, ond nid yw'n ei gynnig i ddisgyblion oed meithrin. Mae'r galw am gludiant oedran meithrin ledled Bro Morgannwg yn isel iawn (yn seiliedig ar geisiadau a wnaed i'r tîm cludiant ysgol) ac oherwydd amseroedd amrywiol lleoliadau meithrin ynghyd â'r cludiant ychwanegol y byddai ei angen a'r mesurau diogelu ychwanegol fydd angen eu gweithredu, byddai'n ychwanegu pwysau ariannol ychwanegol at gyllideb sydd eisoes wedi'i gorwario.



## **Hyfforddiant i Staff**


Mae hyfforddiant yn cael ei gynllunio ar sut i drafod yr opsiynau addysg Gymraeg sydd ar gael gyda rhieni a gofalwyr, yn ogystal â chwestiynau a phryderon cyffredin, ar gyfer staff rheng flaen a chydweithwyr lechyd, ac fe adroddir ar hynny yn ein hadrodd ar berfformiad blynyddol y CSCA. Cydnabyddir bod angen yr hyfforddiant hwn er mwyn sicrhau gwybodaeth gywir a meithrin hyder yr unigolion hynny sy'n trafod gyda'r cyhoedd.

**Deilliant 2:** Mwy o blant dosbarth derbyn / plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Beth yw'r sefyllfa nawr?**

Mae 300 o leoedd dosbarth derbyn ar gael mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ym mis Medi 2021, a fydd yn cynyddu i 330 drwy ehangu Ysgol Sant Baruc ac adleoli i safle newydd o fis Medi 2022. Ar gyfer 2020/21, derbyniwyd 251 o blant oedran derbyn (15.91% o gyfanswm y garfan dderbyn) i ysgolion cynradd Cymraeg. Yn ardal y Barri, dyrannwyd 100% o'r lleoedd derbyn a oedd ar gael ar gyfer mis Medi 2020 ond dim ond 90% ohonynt yng ngorllewin y Fro a 70% yn ardal Penarth. Ardal Penarth sydd â'r boblogaeth ddalgylch fwyaf gyda chanran is o blant yn mynychu darpariaeth Gymraeg. Bydd y rhesymau dros hyn yn cael eu harchwilio'n llawn, eu cofnodi, ac eir i'r afael â nhw fel rhan o'r adrodd ar berfformiad blynyddol y CSCA. Bydd mesurau penodol yn cael eu nodi er mwyn ennyn diddordeb rhieni yn ardal Penarth.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y galw am leoedd dosbarth derbyn dros y 15 mlynedd diwethaf a'r lleoedd oedd ar gael.



Sefydlodd y Cyngor ddwy ysgol Gynradd Gymraeg newydd ym mis Medi 2011 i hwyluso'r galw cynyddol am addysg Gymraeg. Mae'r galw wedi aros yn sefydlog hyd at fis Medi 2020 gyda rhai amrywiadau yn nifer y disgyblion. Mae'r Cyngor yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo addysg Gymraeg i rieni a bydd ffyrdd o wella ar arferion presennol yn cael eu gweithredu yn ystod rhan gynnar cylch y CSCA hwn. Sefydlwyd Grŵp Ffocws Niferoedd Disgyblion fel is-grŵp i fforwm

CSCA y Fro i ymgysylltu a chefnogi twf addysg Gymraeg yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, cydnabyddir yn y Cynllun hwn nad yw bellach yn ddigonol i ateb y galw, rhaid creu'r galw.

## **Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?**

Mae dwy elfen allweddol i strategaeth y Cyngor i gynyddu nifer y dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg:

1. Buddsoddi mewn cynyddu nifer y lleoedd cynradd Cymraeg sydd ar gael ledled Bro Morgannwg; ac
2. Annog rhieni/gofalwyr i ddewis addysg Gymraeg.

### **1. Buddsoddiad**

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn darparu 300 o leoedd dosbarth derbyn Cymraeg y flwyddyn ar draws Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd angen buddsoddiad sylweddol er mwyn cyflawni'r targedau uchelgeisiol a bennwyd fel rhan o'r Cynllun.

Yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun, bydd y Cyngor yn cynyddu gan 30 nifer y lleoedd derbyn sydd ar gael drwy ehangu Ysgol Sant Baruc. Bydd adeilad newydd yn cael ei godi ar ddatblygiad tai newydd Glannau'r Barri a fydd yn cynnig cyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer Ysgol Sant Baruc, a fydd yn trosglwyddo i'r adeilad erbyn mis Medi 2022. Yn gyffredinol, bydd yr adeilad newydd yn cynnig 210 o leoedd cynradd ychwanegol a 48 o leoedd meithrin rhan-amser. Wrth benderfynu ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Sant Baruc, roedd Cabinet y Cyngor yn ymwybodol o strategaeth Cymraeg 2050 ac roedd o'r farn y byddai lleoli ysgol Gymraeg o fewn cymuned newydd yn cefnogi twf mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.

Yn 2019, cynhaliodd y Cyngor adolygiad llawn o leoedd cynradd yn y Bont-faen. Cafodd yr adolygiad hwn ei lywio gan ddatblygiadau tai a gynhwyswyd fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) y Cyngor. Mae'r mwyaf ohonynt ar y tir i'r gogledd a'r gorllewin o Darren Close sy'n cynnwys 475 o anheddau. Fel rhan o'r datblygiad hwn, byddai safle 2 hectar yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor i godi adeilad ysgol newydd. Mae'r datblygiad tai yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd a bydd y tir ar gyfer yr ysgol arfaethedig yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor yn 2022. Penderfynodd yr adolygiad nad oedd digon o gapasiti cynradd cyfrwng Saesneg yn yr ardal i ateb y galw yn y dyfodol tra bod digon o gapasiti cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, roedd yr adolygiad hwn yn seiliedig ar dueddiadau hanesyddol o ran dewis rhieni ac nid oedd yn ystyried twf addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Felly, yn hytrach na defnyddio'r safle newydd ar gyfer ehangu addysg cyfrwng Saesneg, cymeradwyodd Cabinet y Cyngor ddull graddol o gynyddu lleoedd cynradd yn y Bont-faen gan roi sylw i gynyddu lleoedd cyfrwng Saesneg fel rhan o gam 1 a chyfrwng Cymraeg fel rhan o gam 2. Mae'r Cyngor wedi neilltuo'r safle newydd sydd wedi'i gynnwys fel rhan o'r datblygiad tai ar gyfer ehangu addysg Cymraeg yn y dyfodol er mwyn hwyluso twf o fewn y gymuned. Mae'r cynnig arfaethedig i ehangu addysg Cymraeg yn y Bont-faen yn amodol ar ddatblygu cynnig ffurfiol

a bod y cyllid perthnasol ar gael. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yr ehangu hwn yn cael ei gyflawni o fewn 5 mlynedd cyntaf y cynllun.

Bydd cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg i gefnogi CSCA y Cyngor yn ystyriaeth allweddol fel rhan o ddatblygu Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) y Cyngor ar gyfer camau o'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn y dyfodol er mwyn cynyddu ymhellach nifer y lleoedd cynradd Cymraeg sydd ar gael ledled Bro Morgannwg. Fel rhan o'r RhAS, bydd archwiliad penodol o ddichonoldeb darpariaeth Gymraeg bellach ym Mhenarth hefyd yn cael ei gwblhau. Mae safle yn Cosmeston ym Mhenarth wedi cael ei nodi ar gyfer ysgol gynradd bosibl, yn amodol ar ddatblygiad tai ac ymgynghori statudol. Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu ar yr amserlenni ar gyfer datblygu'r safle ond ein bod yn rhagweld y byddai ysgol yn cael ei chyflawni yn ystod 5 mlynedd gyntaf y cynllun.

## 2. Dewis rhieni

Mae tystiolaeth yn dangos, lle mae'r Cyngor wedi cynyddu capasiti cyfrwng Cymraeg, bod nifer y dysgwyr cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu. Fodd bynnag, ni fydd cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael yn gwarantu mwy o alw. Felly, un o elfennau allweddol y CSCA yw annog yn weithredol rhieni/gofalwyr i ddewis addysg Gymraeg.

### **Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Ein gweledigaeth ddeng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella'r gwaith o gynllunio darpariaeth addysg Gymraeg ym Mro Morgannwg fydd cynyddu nifer y plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg i 24% erbyn 2031/32. Mae hyn yn cyfateb i greu tua 390 o leoedd Blwyddyn un erbyn 2031/32 yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth cyfredol. Mae'r ymrwymiadau a amlinellir fel rhan o'r CSCA hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r targed hwn drwy fuddsoddi yn y seilwaith i gynyddu nifer y lleoedd cynradd Cymraeg sydd ar gael ledled y Fro ac ymgymryd â rhaglen ymgysylltu sylweddol i annog rhieni i ddewis addysg Gymraeg.

### **Data Allweddol**

#### **Niferoedd a % y plant 5 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg**

Mae'r tabl yn nodi nifer a chanran a amcanestynnir y dysgwyr Blwyddyn 1 mewn ysgolion cynradd sydd angen cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mro Morgannwg bob blwyddyn i fodloni'r cynnydd o 24% o ddysgwyr Cymraeg erbyn 2031 - 2032.

2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
280	18%	287	19%	306	20%	315	20%	324	21%
2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	
337	22%	345	22%	353	23%	365	24%	372	24%

Mae ein targed sy'n amlinellu'r cynnydd disgwyliedig yn nifer y plant mewn dosbarth derbyn a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mro Morgannwg yn ystod oes y Cynllun yn cyfateb i gynnydd y bydd tua 390 o leoedd derbyn Cymraeg yn 2031/32. Ym mlwyddyn ysgol 2020/2021

roedd 251 (16%) plant oedran derbyn allan o gyfanswm y garfan o 1577 yn derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion cynradd Cymraeg.

Mae'r Cyngor yn cydnabod, er mwyn cyfrannu'n effeithiol at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, bod angen buddsoddiad sylweddol yn y ddarpariaeth addysg er mwyn creu galw a hwyluso'r galw am addysg Gymraeg. Cyfeirir at hyn yn Ein Gweledigaeth ac yn Deilliant 1 (tudalennau 3 ac 8).

Bydd y cynnydd yn y ddarpariaeth sydd ar gael yn hwyluso'r galw fel bod 24% o'r boblogaeth oedran derbyn yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2031/32.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn datblygu ei Strategaeth Fuddsoddi Dysgu a Sgiliau law yn llaw â'r CSCA i sicrhau bod y targedau a'r ymrwymïadau yn llywio buddsoddiad yn y dyfodol.

Bydd unrhyw geisiadau am arian grant gan Weinidogion Cymru o ran yr ysgolion a gynhelir yn ystyried y targed i gynyddu nifer y dysgwyr ym Mlwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y Cynllun.

## **Uned Drochi**

Mae Bro Morgannwg wedi gwneud defnydd o lefydd trochi sydd gan Gyngor Caerdydd yn y gorffennol, a fu'n effeithiol ond sydd ddim bellach yn ateb y galw. Fel ymateb i gynnydd yn y galw chreu mwy o alw, ac yn dilyn cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru, rydym wedi sefydlu ein dosbarth Trochi ein hunain yn Ysgol Gwaun y Nant yn Y Barri. Mae'r Uned yn derbyn hyd at 12 o ddisgyblion oed cynradd ers mis Chwefror 2022 a'r bwriad yw y bydd y datblygiad cyffrous hwn yn tyfu i ddarparu ar gyfer y galw ar lefel Gynradd ac Uwchradd yn ystod y CSCA hwn. Bydd opsiynau i ddatblygu uned drochi lloeren fel rhan o ddatblygu ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn rhannau eraill o'r Fro yn y dyfodol yn cael eu dilyn yn weithredol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cefnogi ein targed o gynyddu nifer y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i 24% erbyn 2031/32. Mae Consortïwm Canolbarth y De (CCD) yn darparu dysgu ac adnoddau proffesiynol i athrawon mewn Ysgolion Cymraeg ar y ffordd orau o gefnogi hwyrdyfodiaid. Mae CCD wedi hwyluso'r gwaith o rannu arfer da ar draws y rhanbarth yn y maes hwn mewn cydweithrediad â'r Uned Drochi bresennol yng Nghaerdydd ac unrhyw ddarpariaeth arall sy'n dod i'r amlwg wrth symud ymlaen. Bydd Swyddogion Cymraeg mewn Addysg yn parhau i ddarparu cymorth pwrpasol i unigolion neu grwpiau o ysgolion.

Yn ogystal, bydd hwyluso uned drochi yn cael ei ystyried fel rhan o gyflwyno ysgolion Cymraeg y dyfodol. Ar hyn o bryd mae uned drochi yn cael ei hystyried fel rhan o'r prosiect ar gyfer Ysgol Gymraeg yn Y Bont-faen. Uned hunangynhwysol fyddai hon o fewn yr ysgol arfaethedig a fyddai'n darparu lleoliadau trochi cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â chynnig gwersi Cymraeg i oedolion. Byddai cyflwyno'r agwedd hon ar y cynnig yn destun i ymgynghoriad perthnasol a'r cyllid sydd ar gael.

Ystyrir dull penodol ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) a Theuluoedd Ffoaduriaid a ategir gan bolisi er mwyn sicrhau bod teuluoedd o bob cefndir ieithyddol yn ymwybodol bod addysg Gymraeg yn opsiwn priodol i'w plant. Bydd y defnydd o addysg Drochi hefyd yn cael ei ystyried er mwyn cefnogi'r dysgwyr hyn.

Dim ond ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg sydd gan Fro Morgannwg ac nid ydym yn ystyried unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i newid categori unrhyw ysgol gynradd neu uwchradd Saesneg.

Bydd y Cyngor yn cyflwyno cais am arian er mwyn adeiladu ar lwyddiant y Ganolfan Gymraeg a agorodd i ddisgyblion ym mis Chwefror. Bydd y cais yn amlinellu ein huchelgeisiau i ehangu'r ddarpariaeth hon i ardaloedd eraill yn y Fro, gan ddarparu canolfannau trochi ychwanegol mewn lleoliadau eraill, yn cefnogi disgyblion cynradd ac uwchradd. Bydd cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau trochi disgwylidig i oedolion hefyd yn cael eu cadarnhau o fewn blwyddyn gyntaf y cylch CSCA newydd.




**Deilliant 3:** Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i'r llall


**Beth yw'r sefyllfa nawr?**

Mae'r tablau isod yn amlinellu canran y disgyblion sy'n trosglwyddo rhwng y gwahanol gamau addysg ym Mro Morgannwg.


**% y disgyblion sy'n trosglwyddo o Gyfnod Sylfaen (BI.2) a Chyfnod Allweddol 2 (BI.3) mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg.**



**% y disgyblion sy'n trosglwyddo o Gyfnodau Sylfaen 2 (BI.6) a 3 (BI.7) mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg.**



## % y disgyblion sy'n trosglwyddo o Gyfnodau Sylfaen 3 (BI.9) a 4 (BI.10) mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg



Mae'r cyfraddau pontio o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg yn uchel ar y cyfan, ond nodwyd bod nifer y disgyblion sy'n parhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg wedi gostwng ychydig o gymharu â blynyddoedd a fu. Ar gyfer mis Medi 2021, newidiodd 9 o ddisgyblion i Ysgol y Bont-faen o Ysgol Iolo Morgannwg a throsglwyddodd 5 o Ysgol Pen-y-Garth i ysgolion uwchradd Saesneg ym Mhenarth. Mae hyn yn gynnydd ymylol ar flynyddoedd blaenorol.

Nododd arolwg diweddar o nifer cymharol isel o rieni sy'n dewis pontio o ysgolion cynradd Cymraeg i ysgolion uwchradd Saesneg yn y Bont-faen a Phenarth mai mater allweddol oedd dymuniad i'w plentyn fynychu'r ysgolion cyfun lleol y gallen nhw gerdded iddynt, yn hytrach na manteisio ar drafnidiaeth i'r Barri. Nodwyd hefyd bryderon am gefnogi dysgu gartref yn ystod y pandemig. Mae hyn wedi tynnu sylw at ofyniad i gefnogi teuluoedd yn gynharach yn y broses ymgeisio o ran deall y buddion i'w plentyn o barhau yn y ddarpariaeth Gymraeg. Mae ein hysgolion cynradd Cymraeg wedi ymrwmo i sicrhau eu bod yn annog rhieni i ddewis addysg uwchradd Gymraeg, gan sicrhau bod deunydd marchnata ar gael sy'n defnyddio'r holl lwyfannau sydd ar gael i farchnata manteision Addysg Gymraeg i rieni a dysgwyr.

Bydd y Cyngor yn gweithio i sicrhau nad yw'r gostyngiad bach o ran ffigurau disgyblion nad ydynt yn pontio o'r Cyfnod Sylfaen (BI. 2) i Gyfnod Allweddol 2 (BI. 3) a hefyd Cyfnodau Allweddol 2 (BI. 6) a 3 (BI. 7) yn datblygu'n batrwm. Mae camau eisoes ar waith i nodi'r rhesymau dros hyn ac i weithio gyda'r ysgolion perthnasol er mwyn helpu i gynyddu nifer y disgyblion a chadw disgyblion yn yr ysgolion hyn.

Er mwyn gwireddu'r nod o weld pontio llwyddiannus rhwng pob cyfnod allweddol, mae'n hanfodol ein bod yn cydnabod pwysigrwydd annog rhieni i ddewis addysg Gymraeg, gan sicrhau bod deunydd marchnata ar gael sy'n defnyddio'r holl lwyfannau sydd ar gael i farchnata manteision Addysg Gymraeg i rieni a dysgwyr. Sefydlwyd Grŵp Ffocws Niferoedd Disgyblion y CSCA i weithio'n uniongyrchol gyda Phenaethiaid ysgolion Cymraeg i nodi'r rhesymau hyn ac unrhyw fesurau neu gamau gweithredu er mwyn helpu i gynyddu nifer y disgyblion a chadw

disgyblion yn eu hysgolion. Bydd y grŵp hefyd yn cefnogi ysgolion i sicrhau nad yw disgyblion yn cael eu colli wrth bontio rhwng cyfnodau allweddol ac yn arbennig rhwng y cyfnod cynradd ac uwchradd. Adroddir ar hyn yn rheolaidd fel rhan o adroddiadau perfformiad / camau gweithredu'r CSCA.

## **Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?**

Rydym wedi cynyddu capasiti uwchradd cyfrwng Cymraeg i ateb y galw a ragwelir a byddwn nawr yn cymryd camau i gefnogi creu galw ychwanegol. Bydd y ffocws yn ystod 5 mlynedd cyntaf y cynllun yn cynyddu'r ddarpariaeth gynradd i gefnogi'r targed o 24% o ddysgwyr cyfrwng Cymraeg blwyddyn un erbyn 2031/32. Fodd bynnag, gan nodi y bydd hyn yn cael effaith ddilynol ar gapasiti uwchradd wrth i ddysgwyr symud ymlaen drwy'r ysgol, bydd angen ystyried hyn fel rhan o raglen fuddsoddi'r Cyngor. Amlinellir ein prosesau cynllunio o ran yr agwedd hon ar ein CSCA ar dudalen 3 y ddogfen hon. Yn ogystal, bydd targedau sy'n ymwneud â chadw disgyblion o'r cyfnod cynradd i'r cyfnod uwchradd dros gyfnod y cynllun yn cael eu datblygu a'u monitro'n flynyddol.

Mae'r cyfraddau pontio yn y Fro yn uchel ar y cyfan, ond nodwyd y bu cynnydd yn nifer y rhieni sy'n dewis trosglwyddo eu plant i addysg uwchradd Saesneg ar ôl cwblhau eu haddysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae elfen ddaearyddol i hyn gyda chanran uwch o rieni yn y Bontfaen a Phenarth yn gwneud y penderfyniad hwn. Er mwyn cyrraedd ein targed o 24% o ddysgwyr blwyddyn un mewn addysg Gymraeg erbyn 2031/32, bydd swyddogion y Cyngor ynghyd â rhanddeiliaid allanol drwy'r fforwm CSCA a rhwydweithiau ehangach yn gweithio gyda'i gilydd i ddeall a mynd i'r afael yn llawn â'r mater hwn. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i gryfhau'r broses o bontio o ysgolion cynradd Cymraeg i Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg er mwyn sicrhau bod plant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i'r llall. Mae Grŵp Ffocws Niferoedd Disgyblion y CSCA eisoes wedi'i sefydlu i weithio'n uniongyrchol gyda Phenathiaid ysgolion Cymraeg i nodi'r rhesymau hyn ac unrhyw fesurau neu gamau gweithredu er mwyn helpu i gynyddu niferoedd disgyblion a chadw disgyblion yn eu hysgolion. Bydd y grŵp hefyd yn cefnogi ysgolion i sicrhau nad yw disgyblion yn cael eu colli wrth bontio rhwng cyfnodau allweddol ac yn arbennig rhwng y cyfnod cynradd ac uwchradd.

Yn yr un modd, nodwyd prosiect sy'n nodi profiadau pontio disgyblion hŷn i addysg bellach ac uwch. Mae elfen ychwanegol sy'n gofyn am astudiaeth bellach o fewn y cylch CSCA hwn yn ymwneud â lefel yr ymyrraeth a'r cymorth y mae disgyblion blwyddyn 2-3 iau a'u teuluoedd yn eu derbyn ar adeg gynnar wrth ystyried symud o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i rai Saesneg. Bydd Consortiwm Canolbarth y De (CCD) yn parhau i hyrwyddo strategaethau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol ar draws pob sector ac ystod oedran. Bydd CCD yn parhau i hyrwyddo mentrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sydd â'r nod o hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc a chyfrwng addysg. Bydd y Consortiwm yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol ac ysgolion wedi'u targedu lle gallai cyfraddau pontio fod yn destun pryder a chyhoeddi adnoddau i gefnogi a rhoi sicrwydd i rieni/gofalwyr ynghylch pontio rhwng cyfnodau.

Er mwyn creu'r galw am addysg Gymraeg o'r adeg pan gaiff plant eu geni, mae'r Cyngor wedi cydnabod y bydd datblygu lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn agos at ysgolion cynradd Cymraeg yn creu galw ac yn cefnogi ein huchelgais i gynyddu nifer y dysgwyr Cymraeg ym

mlwyddyn un i 24%. Drwy fuddsoddi mewn gofal plant cyfrwng Cymraeg, bydd y Cyngor yn cefnogi rhieni i gyrchu addysg Gymraeg i'w plant, gan gefnogi dilyniant ieithyddol o oedran ifanc. Bydd llwyddiant y cyfleuster gofal plant cyfrwng Cymraeg newydd yn Ysgol Dewi Sant yn Llanilltud Fawr yn 2021 yn cael ei fonitro'n agos gyda'r bwriad o efelychu'r cyfleuster hwn ger ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill.

Bydd y £21.5m ychwanegol a fuddsoddwyd yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg i gynyddu capasiti ac adnewyddu'r adeilad presennol yn sicrhau y gellir darparu ar gyfer niferoedd ychwanegol sy'n dod drwodd o'r Ysgolion Cynradd yn y tymor canolig. Roedd y buddsoddiad hwn yn cynnwys:

- Uwchraddio ystafelloedd dosbarth presennol ym mhob rhan o'r adeilad;
- Cae rygbi pob tywydd newydd o'r radd flaenaf;
- Neuadd chwaraeon newydd;
- Ardal gemau aml-ddefnydd newydd sy'n cynnig hyd at chwe gweithgaredd gwahanol;
- Adeilad mynedfa newydd gyda gwelededd gwell o'r brif ffordd;
- Bloc DTh newydd gyda chyfleusterau o'r radd flaenaf; a
- Mannau bwyta gwell.

Rhagwelir y bydd hyn yn cefnogi cadw disgyblion o'r cyfnod cynradd i'r cyfnod uwchradd, tra hefyd yn cyfeirio at y gwaith ymgysylltu sydd ar y gweill i wella'r broses bontio.

### **Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Ar ddiwedd y cylch Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn, bydd capasiti ychwanegol ar gyfer ysgolion a gofal plant wedi'i gyflwyno drwy sicrhau y cymerir mantais lawn o'r cyllid sydd ar gael o raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant, Cynllun Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg a ffynonellau mewnol eraill. Y disgwyl yw y bydd hyn yn cynnwys ein dyhead i adeiladu ail Ysgol Uwchradd Gymraeg

Yn ogystal, bydd y Cyngor wedi datblygu dealltwriaeth o a mentrau ar gyfer gwella cyfraddau pontio a chyfraddau cadw rhwng pob cyfnod allweddol er mwyn cefnogi pob dysgwr sy'n dechrau gydag addysg cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar i barhau â hynny gydol eu haddysg statudol a'u haddysg bellach. Byddwn yn cyflawni hyn drwy weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid mewnol ac allanol a thrwy gefnogi rhieni a'r gymuned ehangach i ddeall mwy am fanteision addysg Gymraeg.

Dim ond ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg sydd gan Fro Morgannwg. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg – cyflwynir pob agwedd ar y cwricwlwm yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ystod y cylch CSCA hwn, bydd Consortiwm Canolbarth y De (CCD) yn parhau i gefnogi ysgolion cyfrwng Saesneg i gynyddu faint o Gymraeg a addysgir – ar lefel pwnc ac ar draws y cwricwlwm. Nid yw Bro Morgannwg ar hyn o bryd yn rhagweld newid o ran categoraiddiad iaith unrhyw ysgol cyfrwng Saesneg. Byddwn yn ceisio cyfleoedd i wneud hynny gydol cyfnod y cynllun

Bydd CCD yn cefnogi'r Cyngor drwy roi cyngor, dysgu proffesiynol ac adnoddau i ysgolion cyfrwng Saesneg penodol a nodwyd i gynyddu canran y cwricwlwm a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y Consortiwm yn cefnogi rhaglenni lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer Datblygu'r Gymraeg drwy roi cyngor, dysgu proffesiynol a chymorth i ymarferwyr i gaffael a

gwella eu sgiliau iaith Gymraeg. Bydd hyn yn cynyddu capasiti'r staff sy'n gallu addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg ar draws pob sector. Bydd CCD yn parhau i ddatblygu ar y cydweithrediad gyda'r sector uwchradd Cymraeg i ddarparu dysgu proffesiynol pwnc-benodol, yn enwedig mewn meysydd lle ceir prinder ymarferwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ddiweddar mae Bro Morgannwg wedi sefydlu Uned Trochi Cynradd ei hun yn Y Barri. Wrth i'r galw barhau i gael ei greu a thyfu, bydd cyfleoedd i sefydlu dosbarth trochi lloeren mewn man arall yn y Fro yn cael eu hystyried. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cefnogi ein targed o gynyddu nifer y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i 24% erbyn 2031/32. Bwriad y Cyngor yw y bydd cyfleusterau trochi lleol gwell ar gael i ddisgyblion mor agos i'w cartrefi â phosibl yn ystod y cylch CSCA nesaf hwn.

Ar hyn o bryd, mae nifer y plant a'r bobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) mewn ysgolion prif ffrwd Cymraeg sy'n dangos cymhlethdod angen a fyddai'n gofyn am fynediad at ddarpariaeth arbenigol yn isel iawn, ac nid yw'n cyfiawnhau datblygu darpariaeth arbenigol leol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r plant a'r bobl ifanc hyn wedi cael cymorth ychwanegol yn eu lleoliadau prif ffrwd sydd wedi cefnogi eu cynnwys a bodloni yr angen yn llwyddiannus. Mewn nifer fach o achosion lle mae angen darpariaeth arbenigol, mae llefydd yn cael eu comisiynu o awdurdodau lleol cyfagos yn unol ag anghenion cyflwyno'r disgyblion. Mae'n debygol iawn, wrth i niferoedd mewn lleoliadau Cymraeg dyfu y bydd angen mwy o ddarpariaeth arbenigol. Fodd bynnag, caiff hyn ei fonitro'n barhaus a bydd y potensial ar gyfer darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddatblygu ar yr adeg briodol.

Bydd CCD yn parhau i hwyluso cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i gynhyrchu adnoddau sy'n hyrwyddo dilyniant ieithyddol i rieni/gofalwyr. Hefyd, maen nhw'n rhoi cyfleoedd i ysgolion Cymraeg gymryd rhan mewn mentrau i fonitro dilyniant ieithyddol e.e. barn gymharol. Mae cymorth hefyd yn cael ei roi gyda sefydlu'r Uned Drochi newydd.

Mae Dysgu Cymraeg y Fro yn cael cyswllt rheolaidd â dysgwyr Cymraeg sy'n oedolion, y mae llawer ohonynt yn rhieni i blant oedran ysgol a/neu blant cyn oed ysgol. Mae tiwtoriaid yn cefnogi rhieni sydd â chwestiynau am addysg Gymraeg, yn ogystal â chwestiynau iaith-benodol fel ynganu mewn llyfrau darllen a gwaith cartref. Bydd rhaglen newydd o Gymraeg i'r Cartref gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn dechrau yn y Barri ym mis Medi 2021 gyda chwrs Lefel Mynediad i rieni a gofalwyr. Bydd hwn yn cael ei gyflwyno ymhellach yn y Fro dros y blynyddoedd dilynol.

Bydd CCD yn rhoi cyngor, dysgu proffesiynol ac adnoddau i gefnogi ysgolion i weithredu'r Gymraeg ar Draws y Cwricwlwm gan gynyddu faint o ddarpariaeth ddysgu a gynigir.

**Deilliant 4:** Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau asesedig mewn Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Beth yw'r sefyllfa nawr?

Ar hyn o bryd mae un ysgol Gymraeg yn addysgu disgyblion oedran uwchradd ym Mro Morgannwg, sef Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Mae'r ysgol yn addysgu plant 3-19 oed ac mae pob dysgwr sy'n mynychu'r ysgol yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg wedi'i hehangu o 1361 o leoedd i 1660 o leoedd i ateb y galw cynyddol am lefydd ddaeth yn weithredol ym mis Medi 2020 dan faner Ysgolion yr 21ain Ganrif (Cam ariannu Band B). Bydd adolygiad pellach o'r galw am leoedd cyfrwng Cymraeg uwchradd yn cael ei gynnal i *nodu nifer y lleoedd sydd eu hangen a datblygu cynigion ar gyfer ehangu lleoedd uwchradd Cymraeg yn ardaloedd Y Bont-faen neu Benarth*. Caiff capasiti pob ysgol ym Mro Morgannwg ei adolygu'n rheolaidd gan y Grŵp Strategaeth Fuddsoddi Ysgolion sy'n cefnogi'r trywydd i'w ddilyn ar gyfer datblygiadau trefniadaeth ysgolion. Mae newidiadau i ddalgylchoedd, polisi derbyn a chynigion trefniadaeth ysgolion yn cefnogi ein huchelgais dros addysg cyfrwng Cymraeg. Gan symud ymlaen i'r cylch CSCA newydd, bydd Targed y CSCA i gynyddu canran y dysgwyr blwyddyn un Cyfrwng Cymraeg i 24% yn elfen allweddol o'r strategaeth Fuddsoddi.

Yn seiliedig ar oblygiadau cyllido darpariaeth uwchradd Gymraeg estynedig, ystyrir y dylai hyn fod yn rhan o raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu i'w chyflawni o dan y cam cyllido nesaf.

### Gwybodaeth y Dysgwr\*

#### Blwyddyn Academaidd 2021/22

Nifer y dysgwyr sy'n astudio TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf a Chymraeg Ail Iaith	Cymraeg fel Ail Iaith = 1210 Cymraeg (Iaith Gyntaf) = 157
Y niferoedd sy'n sefyll cymwysterau Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4.	157 yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg 1364 Cymraeg TGAU mewn ysgolion Saesneg Cyfanswm = 1521
Y niferoedd sy'n trosglwyddo i ddarpariaeth chweched dosbarth Cymraeg mewn ysgolion.	Nifer ar y Gofrestr NBG 12 = 89 NBG 13 = 90

\*Ffynhonnell data CA4 a CA5 wedi'i uwchlwytho gan ysgolion i Dewi Rhagfyr 2021.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau gwybodaeth ychwanegol i Gynghorau sy'n cynnwys data i gefnogi cynlluniau CSCA er nad oes data ar gael ar ddeilliannau ar gyfer 2020-21 ar hyn o bryd. Bydd amser data'r Fro yn cynnig data gwaelodlin i gefnogi camau gweithredu ym mlwyddyn gyntaf y cylch CSCA newydd.

O ran dysgwyr Cymraeg iaith gyntaf, mae'r sefyllfa yn debyg i gofnodion yn 2019/20 a 2018/19, ond yn gynydd ar y niferoedd mynediad o'u cymharu â 2016-17 a 2017-18.

Yn achos cymwysterau Cymraeg ail iaith, mae yna gynydd oddi ar y ffigyrau blaenorol ac yn ogystal, bydd St Cyres yn cynnig disgyblion am y tro cyntaf ar gyfer TGAU Cymraeg ail iaith yr haf hwn.



		2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
<b>Welsh (first language)</b>	<b>N</b>	121	117	156	152
	<b>%</b>	9%	8%	10%	10%
<b>Welsh (second language)</b>	<b>N</b>	682	706	978	989
	<b>%</b>	49%	51%	66%	68%
<b>Not registered for a Welsh GCSE</b>	<b>N</b>	601	573	356	319
	<b>%</b>	43%	41%	24%	22%

Gwybodaeth hanesyddol ar gyfer cofrestriadau UG / Safon Uwch mewn Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith.

Cofrestriadau	2016/17	2017/18	2018/19
Nifer	24	25	16
%	1.4%	1.7%	1.1%

Mae CCD wedi hybu gwybodaeth am e-ysgol gyda phob ysgol uwchradd Gymraeg ar draws y rhanbarth fel rhan o waith partneriaeth 'Gyda'n Gilydd'.

## **Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?**

### **Adlewyrchu twf grŵp y flwyddyn gyfredol**

Erbyn blwyddyn 5 y CSCA byddwn ni'n cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio TGAU Cymraeg iaith Gyntaf i 100% o ddysgwyr blwyddyn 11 yn ein hysgol Gymraeg ac 80% o ddysgwyr blwyddyn 11 mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (yn astudio Cymraeg fel Ail iaith).

Fel yr amlinellwyd mewn deilliannau blaenorol, yr allwedd i gyrraedd ein targed o 24% o ddysgwyr blwyddyn 1 cyfrwng Cymraeg erbyn 2021/32 yw creu galw, meithrin gallu, sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn ddeniadol a chadw disgyblion ar draws pob cyfnod allweddol. Bydd datblygu ein cysylltiadau cyhoeddus, gan hyrwyddo a marchnata addysg Gymraeg a'n hysgolion cyfrwng Cymraeg yn gam allweddol ar gyfer blynyddoedd cynnar y CSCA, er mwyn sicrhau bod rhieni a darpar rieni yn ymwybodol o fanteision gydol oes bod yn ddwyieithog a gallu siarad Cymraeg yng Nghymru, ac yn deall y manteision hynny'n llawn.

Drwy ganolbwyntio ar greu galw ym maes addysg a gofal plant blynyddoedd cynnar nawr, byddwn yn sicrhau trwy fonitro diwyd bod hyn yn hidlo drwedd i addysg uwchradd. Yn ogystal, bydd y Cyngor yn datblygu ymhellach ein dealltwriaeth o, a mentrau i wella cyfraddau pontio a chyfraddau cadw rhwng pob cyfnod allweddol.. Bydd hyn yn ei dro yn cefnogi pob dysgwr sy'n dechrau gydag addysg cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar i barhau â hynny gydol eu haddysg statudol ac addysg bellach. Byddwn yn cyflawni hyn drwy weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid mewnol ac allanol a thrwy gefnogi rhieni a'r gymuned ehangach i ddeall mwy am fanteision addysg Gymraeg. Bydd cyfraddau pontio a chadw yn cael eu monitro'n barhaus drwy

gydol y cylch CSCA gan y Cyngor, ei fforwm CSCA a Grŵp Ffocws Niferoedd Disgyblion y CSCA.

Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn gweithio gyda'n partneriaid yng Nghonsortium Canolbarth y De (CCD) a Choleg Caerdydd a'r Fro (CCF) i gefnogi ein disgyblion a'n hysgolion yn y ffyrdd canlynol:

#### Consortium Canolbarth y De (CCD)

- Cytuno ar dargedau mesuradwy a fydd yn cael eu ffurfioli ym mlwyddyn gyntaf y CSCA a fydd hefyd yn manylu ar nod y Cyngor o fuddsoddi'n ddigonol er mwyn sicrhau bod mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau wedi'u hasesu yn Gymraeg, fel pwnc, a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Sicrhau addysgu a dysgu o ansawdd uchel ym mhob ysgol Gymraeg.
- Cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r uwchradd - gan sicrhau cyfraddau pontio uchel o bob ysgol fwydo cynradd.
- Hyrwyddo manteision addysg Gymraeg gyda rhieni / gofawyr a sut y gall rhieni / gofawyr gefnogi hyd yn oed os nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref.
- Cyngor y Fro a CCD i weithio gyda chyrrff dyfarnu priodol gan gynnwys CBAC, WJES, Pearson's, Agored Cymru a Chymwysterau Cymru i sicrhau bod yr holl gymwysterau (gan gynnwys Cymwysterau Galwedigaethol) sydd ar gael drwy gyfrwng y Saesneg hefyd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Ar hyn o bryd mae CCD yn buddsoddi arian i ganiatáu cydweithio rhwng ymarferwyr uwchradd cyfrwng Cymraeg a CBAC er mwyn cynhyrchu cymwysterau Lefel 3 cyfrwng Cymraeg a wneir yng Nghymru gyda bwriad o ehangu hyn ymhellach yn y dyfodol. CCD i hwyluso ymarferwyr uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddatblygu cymwysterau cyfrwng Cymraeg ymhellach mewn cydweithrediad â chyrrff dyfarnu.
- Cyngor y Fro a CCD i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddileu rhwystrau i ymuno â'r proffesiwn addysgu e.e. yr angen am TGAU gradd B mewn Mathemateg a Chymraeg/Saesneg
- Cyngor y Fro a CCD i weithio gyda Phrifysgolion Hyfforddiant Athrawon i ddenu pobl o ansawdd uchel sy'n siarad Cymraeg i'r proffesiwn addysgu.
- Cyngor y Fro a CCD i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y proffesiwn yn cael ei werthfawrogi gan Lywodraeth Cymru a'r cyhoedd yn gyffredinol (e.e. sicrhau bod cyflog ac amodau athrawon yn cynyddu yn yr un modd â phroffesiynau eraill a sicrhau bod ysgolion yn cael eu hariannu'n briodol) i wneud y proffesiwn yn fwy deniadol.
- Cyngor y Fro i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid ôl-16 ychwanegol i Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg i alluogi'r ysgol i ddarparu cyrsiau Lefel 2 a Lefel 3 i grwpiau bach o ddysgwyr.

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro (CCF) yn gwasanaethu rhanbarth Bro Morgannwg o ran addysg bellach, gan gydweithio a chefnogi nifer o gyrrff i ddarparu a datblygu cwricwlwm Cymraeg ar gyfer dysgwyr ôl-14 ledled y Fro.

Mae esiamplau o hyn yn cynnwys:

- Cynrychiolaeth CCF ar Fforwm CSCA y Fro, gan ddarparu cyfleoedd i ymgysylltu gyda Chyngor Bro Morgannwg.

- Datblygu tri sector blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Cyhoeddus, Iechyd a Gofal, Gofal Plant gyda chyllid wedi'i gyfrannu gan y Coleg Gymraeg Cenedlaethol fel rhan o system grant datblygu Cymru i gefnogi Gymraeg 2050.
- Cynhelir prosiectau cydweithredol yn rheolaidd gyda Menter y Fro a'r Urdd. Maen nhw'n noddwyr blynyddol ar Wyl Fach y Fro ac Eisteddfod yr Urdd. Mae CCF hefyd yn ymdrechu i greu cyfleoedd cyflogaeth i staff a dysgwyr, gan ddefnyddio eu set sgiliau i gynnal cyfleoedd allgyrsiol cyfrwng Gymraeg i blant cyfrwng Gymraeg ar draws y Fro, megis gweithdai celf gain, sesiynau ffitrwydd.
- Gan weithio gydag Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, mae CCF wedi datblygu cwricwlwm galwedigaethol Gymraeg/dwyieithog ôl-14 sy'n caniatáu i ddisgyblion fynychu'r coleg i ddysgu sgil alwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Er enghraifft, gwallt a harddwch, adeiladu.
- Mae CCF yn cael ei arolygu'n rheolaidd gan Estyn, gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth Gymraeg/ddwyieithog y coleg fel rhan o'i gylch gwaith ar gyfer arolygu addysg ôl-16.
- Mae CCF yn darparu nifer o gyfleoedd i staff ddysgu, datblygu a defnyddio eu Gymraeg. Maen nhw'n cyfrannu at y prosiect Addysg Bellach Gymraeg Gwaith, gan gyflwyno sesiynau Gymraeg wythnosol i dros 30 o staff ers 2016. Yn ogystal â hyn, cynhelir sawl gweithdy gydol pob blwyddyn academaidd mewn partneriaeth â Sgiliaith yn cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a methodoleg addysgu dwyieithog i staff academaidd a rheolwyr.
- Fel rhan o'u prif gwricwlwm ar draws sawl maes dysgu, cyflwynir cymhwyster Gymraeg yn y Gweithle CBAC gan roi'r sgiliau dwyieithog priodol i ddysgwyr ar gyfer y gweithle.
- Bydd Cyngor y Fro yn gweithio gyda CCF a phartneriaid eraill i ystyried defnyddio technoleg ddigidol i gynyddu'r nifer o gymwysterau sy'n cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg (e.e. e-sgol).

## **Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Ar ddiwedd y cylch CSCA hwn, bydd capasiti ychwanegol ar gyfer ysgolion a gofal plant wedi'i gyflwyno drwy sicrhau y cymerir mantais lawn o'r cyllid sydd ar gael o raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant, y Cynllun Grant Cyfalaf Cyfrwng Gymraeg a ffynonellau eraill. Byddwn wedi nodi a dechrau datblygu darpariaeth gynradd ac uwchradd ym Mhenarth, Y Bont-faen a'r Barri.

Yn ogystal, bydd y Cyngor wedi datblygu ei ddealltwriaeth o, a mentrau ar gyfer gwella cyfraddau pontio a chadw rhwng pob cyfnod allweddol. Bydd hyn yn ei dro yn cefnogi pob dysgwr sy'n dechrau gydag addysg Gymraeg y blynyddoedd cynnar i barhau â hynny gydol eu haddysg statudol ac addysg bellach. Byddwn yn cyflawni hyn drwy weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid mewnol ac allanol a thrwy gefnogi rhieni a'r gymuned ehangach i ddeall mwy am fanteision addysg Gymraeg.

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Chonsortium Canolbarth y De (CCD) i gefnogi cyfleoedd dysgu proffesiynol, cyfarfodydd rhwydwaith rhanbarthol a rhannu arfer gorau o ran y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn CA4 ac Ôl-16. Bydd CCD yn parhau i weithio ar lefel genedlaethol gyda'r rhanbarthau eraill i ddatblygu adnoddau ymhellach ar gyfer ysgolion Gymraeg a Saesneg i gefnogi addysgu'r Gymraeg. Bydd Swyddogion Gymraeg mewn Addysg (SCA) yn rhoi cymorth i ysgolion uwchradd Saesneg ddatblygu eu darpariaeth ymhellach yn CA4 ac uwch law hynny. Gweithio gyda darparwyr allanol a Llywodraeth Cymru ar unrhyw fentrau cenedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg yn CA4. Bydd CCD yn parhau i ddatblygu'r

cydweithrediad gyda'r sector uwchradd Cymraeg i ddarparu dysgu proffesiynol pwnc-benodol, yn enwedig mewn meysydd lle ceir prinder ymarferwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro (CCF) hefyd yn gweithio'n agos gydag ysgolion gan ddatblygu cyfleoedd Cwricwlwm i Gymru ar gyfer pob maes galw lle bo hynny'n bosibl. Mae hyn yn sicrhau bod llawer o sgiliau galwedigaethol ôl-14 yn cael eu darparu a'u cefnogi drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Yn ogystal:

- Bydd Cyngor y Fro yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid ôl-16 ychwanegol i Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg i alluogi'r ysgol i ddarparu cyrsiau Lefel 2 a Lefel 3 i grwpiau bach o ddysgwyr.
- Bydd Cyngor y Fro a CCD yn gweithio gyda chyrrff dyfarnu a Chymwysterau Cymru i sicrhau bod yr holl gymwysterau (gan gynnwys Cymwysterau Galwedigaethol) ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.
- Bydd y Cyngor yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnig fel pwnc Safon Uwch mewn ysgolion, a chefnogi ysgolion i gynnal dosbarthiadau llai os oes angen er mwyn gallu diogelu'r pwnc. Byddwn yn cyflawni hyn drwy weithio gyda CCD i:
- Ddatblygu a gweithredu strategaeth farchnata strategol i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch.
- Gweithio gyda darparwyr allanol a LIC ar unrhyw fentrau cenedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch.
- Ystyried defnyddio'r system e-sgol i gefnogi pynciau TGAU a gwella'r ddewislen e-sgol o ran pynciau Safon Uwch cyfrwng Cymraeg.
- Gweithio gyda darparwyr allanol a LIC ar unrhyw fentrau cenedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc.
- Ystyried cyfleoedd ar gyfer cyllid Ôl-16 ychwanegol i alluogi'r ysgol i gynnal dosbarthiadau llai.
- Sicrhau bod disgyblion sy'n astudio cymhwyster iaith gyntaf, sydd hefyd yn astudio Bagloriaeth Cymru, yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- CCD i gefnogi'r athrawon hynny nad oes ganddynt hyder ieithyddol i fynychu'r cwrs sabothol a darparu sesiynau gwella (gloywi iaith) iddynt yn y rhanbarth.
- Rhannu fideos Llywodraeth Cymru - <https://www.youtube.com/cymraeg> yn ystod nosweithiau dewisiadau yn ogystal â'u hyrwyddo ymhlith rhieni.
- Creu fideos astudiaethau achos a fydd yn olrhain gyrfaoedd disgyblion a astudiodd y Gymraeg fel pwnc Safon Uwch a lle mae nhw arni bellach.
- Cydweithio â'r Coleg Cymraeg a Menter Bro Morgannwg i barhau i fynychu nosweithiau agored ysgolion uwchradd a hyrwyddo astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a siarad Cymraeg.
- Sefydlu perthynas agos a chynllunio gyda Gyrfa Cymru er mwyn rhannu negeseuon cadarnhaol.
- Cynnal Ffair Yrfaedd/Swyddi - rhannu pwysigrwydd dwyieithrwydd - cyfres o ffilmiau byrion sy'n portreadu profiad bywyd go iawn yn ogystal â thrwy'r Ymgyrch Hyder.
- Cefnogi ysgolion gyda'r Cwricwlwm i Gymru - edrych ar isdeitl y 4 diben - "Bydd ein holl blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i ddatblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n... gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg." Defnyddio uned 'Troi'r Llanw mewn Deng Mlynedd ar Hugain' y Coleg Cymraeg fel modiwl gyda'r holl ddisgyblion.

## Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol

### Beth yw'r sefyllfa nawr?

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i ysbrydoli plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau. Mae gweithio gyda phartneriaid ar draws asiantaethau yn lleol yn y Fro a thu hwnt yn allweddol i lwyddiant ein strategaeth. Darperir cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol gan yr ysgolion eu hunain, yn ogystal â phartneriaid fel Mudiad Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Menter Bro Morgannwg. Mae'r cydweithio rhwng Consortiwm Canolbarth y De (CCD) ac ysgolion cyfrwng Cymraeg y Fro yn dda ac mae cyfleoedd i rannu arfer da yn gryfder.

Mae'r Siarter Iaith yn fframwaith cenedlaethol i ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg drwy gynllunio pwrpasol o fewn ysgolion a hyrwyddo defnydd anffurfiol ohoni ymhlith dysgwyr y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol, gan ddod â phartneriaid amrywiol at ei gilydd i'w gweithredu. Mae hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ar draws y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau ehangach, gyda dilyniant ieithyddol wedi'i gynllunio drwy gydol pob cyfnod addysg, yn cynnig cyfle i bob plentyn a pherson ifanc ddod yn gwbl ddwyieithog.

Ers lansio'r Siarter Iaith yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg a'r Siarter Iaith Cymraeg Campus yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg, mae'r ysgolion wedi gwneud gwaith arloesol i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg o fewn y gymuned ysgol gyfan.

Hydref 2021	Nifer Ysgolion		
	Efydd	Arian	Aur
Siarter Iaith (cyfrwng Cymraeg)	Cynradd - 7 Uwchradd - 0	Cynradd - 5 Uwchradd - 0	Cynradd - 0 Uwchradd - 0
Cymraeg Campus (cyfrwng Saesneg)	Cynradd - 12 Uwchradd - 0	Cynradd - 2 Uwchradd - 0	Cynradd - 0 Uwchradd - 0

Mae Cymraeg Campus yn cael ei dreialu ar hyn o bryd yn yr ysgolion uwchradd canlynol yn y Fro - Sant Cyres, Llanilltud Fawr a Sant Richard Gwyn. Mae'r swyddog Siarter Iaith hefyd wedi cysylltu â Stanwell i gymryd rhan yn y cynllun peilot yn dilyn eu harolwg diweddar gan Estyn.

Mae Partneriaid Gwella yn cael diweddariadau rheolaidd am y Tîm Cymraeg mewn Addysg a'r gwaith a wneir ganddynt mewn ysgolion, ac mae hyn wedi cynnwys gwybodaeth am y Siarter Iaith a Cymraeg Campus. Trafodir adnabod blaenoriaethau Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) rhwng Partneriaid Gwella ac arweinwyr ysgolion. Lle bo'n briodol, mae cyfeiriad at Siarter Iaith a Chymraeg Campus fel blaenoriaeth yn y cynllun datblygu ysgol.

Byddai'r gwaith hwn yn cael ei gefnogi gan Dîm Cymraeg mewn Addysg CCD a chynnydd o ran y blaenoriaethau hyn yn cael eu monitro fesul tymor. Ar hyn o bryd mae gan 19 o ysgolion ledled y Fro agweddau yn ymwneud â'r Gymraeg fel rhan o'u CDY - mae hyn yn cynnwys dyfarniad Cymraeg Campus / Siarter Iaith, gwella agweddau ar safonau yn y Gymraeg a hybu dwyieithrwydd ar draws yr ysgol. Mae CCD a'r ALI hefyd yn ymwybodol na osodir blaenoriaethau cyffredin wedi'u pennu ymlaen llaw ar ysgolion – gan ystyried negeseuon allweddol ynng Nghanllawiau Gwella Ysgolion drafft LIC 'Fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd'. Bydd Siarter Iaith /Cymraeg Campus yn rhan o ymholiad y Partneriaid Gwella i'w drafod gydag ysgolion yn y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae Urdd Gobaith Cymru yn fudiad plant a phobl ifanc cenedlaethol gwirfoddol sy'n cynnig cyfleoedd amrywiol i ddefnyddio'r Gymraeg ac ennill profiadau y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac yn eu cymunedau gyda gweithgareddau'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae gan Wasanaeth Ieuencid Cyngor y Fro bartneriaeth hirsefydlog gyda'r Urdd i ddarparu cyfleoedd ieuencid Cymraeg anffurfiol i bobl ifanc ar draws y Fro. Mae'r contract presennol ar waith tan fis Mawrth 2022 ac mae'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gweithgareddau yn y gymuned fel clybiau ieuencid a darpariaethau gwyliau, a'r rhai a ddarperir mewn ysgolion megis clybiau dysgwyr Cymraeg amser cinio a dysgu anffurfiol achrededig. Mae cyfarfodydd yn cael eu trefnu'n rheolaidd i fonitro'r contract. Mae'r trefniant hwn yn galluogi gweithwyr ieuencid i weithio'n agos gyda'r Urdd i ddatblygu a chyflwyno sesiynau yn y Gymraeg gan ddefnyddio adnoddau priodol. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n hysgol uwchradd Gymraeg i ddarparu gwasanaethau yn hyn o beth ac rydym yn archwilio ffyrdd y gallwn wella ein trefniadau comisiwn gyda'r Urdd er mwyn optimeiddio'r bartneriaeth ac ymestyn ymhellach y defnydd o'r Gymraeg gyda phobl ifanc. Mae Gwasanaeth Ieuencid y Cyngor wrthi'n adolygu ei gytundeb er mwyn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc weithio gyda'r Urdd a bydd yn gweithio i ddatblygu camau gweithredu a thargedau erbyn mis Mai 2022.

Bydd yr Urdd yn adeiladu ar ei ddarpariaeth bresennol ac yn parhau i geisio barn. Bydd y ddarpariaeth yn cael ei monitro a'i herio yn y fforwm CSCA rheolaidd a chynllunio camau gweithredu ac adrodd. Mae sesiynau chwarae am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol (Bwrlwm) yn eithriadol o bwysig a phoblogaidd ac ystyrir ymestyn y sesiynau yn y dyfodol o bosibl i sicrhau eu bod ar gael yn ystod yr holl wyliau ysgol (ac eithrio'r Nadolig). Mae clybiau wythnosol yr Urdd hefyd yn parhau i gynnig cyfleoedd cymdeithasol gwerthfawr i blant a phobl ifanc ynghyd â gweithgareddau a gweithdai amrywiol yn ystod gwyliau'r ysgol. Rydym hefyd yn gweithio gydag ysgolion i flaenoriaethu'r ddarpariaeth Gymraeg fel rhan o arlwy Bwyd a Hwyl Ysgolion y Fro.

Mewn ysgolion Saesneg, ein nod yw gwahaniaethu rhwng yr holl ddisgyblion yn ôl eu gallu ieithyddol i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd priodol ac yn cael eu herio o ran eu sgiliau Cymraeg. Cynigir darpariaeth wahaniaethol a phenodol drwy wersi Cymraeg penodedig er mwyn sicrhau bod y rheini sy'n trosglwyddo o ddarpariaeth gynradd Gymraeg i ysgolion Saesneg yn parhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys yr athro Cymraeg yn siarad yn fwy rhugl gyda'r disgyblion hynny sydd wedi pontio o ysgolion Cymraeg a disgyblion yn hwyluso fel 'cynorthwydd' yn yr ystafell ddosbarth gyda disgyblion ail-iaith. Yn ogystal, mae ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster Cymraeg priodol yn seiliedig ar sgiliau ieithyddol y disgyblion. Mae amrywiaeth eang o gyfleoedd cyfoethogi Cymraeg yn parhau i gael eu darparu wrth i bob ysgol weithredu a sefydlu'r fframwaith Siarter Iaith ymhellach.

## **Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?**

Bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd pob ysgol, waeth beth fo'i natur ieithyddol, yn gweithio o fewn Fframwaith Cenedlaethol y Siarter Iaith i gyflawni nod Llywodraeth Cymru o sicrhau bod dysgwyr:

- yn hyderus wrth ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg
- yn magu agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith
- yn cynyddu'r defnydd o'r iaith y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol

O fewn 5 mlynedd:

- Bydd 100% o'n hysgolion wedi cyflawni Gwobr efydd.
- Bydd 50% o'n hysgolion wedi cyflawni Gwobr arian.
- Bydd 20% o'n hysgolion wedi cyflawni Gwobr aur.

Bydd y Cyngor yn sicrhau:

- Bod y ddarpariaeth bresennol sydd ar gael i blant oed ysgol i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth a thu allan i'r ysgol yn cael ei mapio'n llawn a'i rhannu'n eang.
- Bod dysgu proffesiynol iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Cymraeg o ansawdd uchel yn amlwg mewn ysgolion a chymorth pwrpasol ar gyfer ysgolion unigol/clystyrau.
- Dysgu proffesiynol a chefnogaeth ar gyfer Trochi'r Gymraeg.
- Bod adnoddau i gefnogi'r cwricwlwm newydd yn cael eu datblygu.
- Darperir swyddog arweiniol Consortiwm Canolbarth y De (CCD) dynodedig i bob ysgol i gefnogi cynnydd y Siarter iaith a Chymraeg Campus. Hyrwyddo, cefnogi, herio ac achredu pob ysgol i wneud cynnydd gyda'r Dyfarniadau Siarter iaith a Chymraeg Campus. Gwerthuso a rhannu arfer gorau.
- Mae staff yr ysgol, yn unol â Safonau Proffesiynol, yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd a chyda'r plant a'r bobl ifanc. Hyrwyddo cyrsiau ar-lein, cyrsiau sabothol, apiau dysgu Cymraeg a chysiau o fewn yr awdurdod.
- Cefnogaeth ar gyfer datblygiad iaith ac ymgysylltu â rhieni. Bydd y Cyngor yn parhau i gydweithio â RhAG fel aelodau o'r Fforwm CSCA.
- Rydym yn cryfhau ein partneriaeth â phartneriaid i dargedu gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg drwy nodi meysydd allweddol gan ddefnyddio data'r Siarter iaith.
- Bydd y nifer o Weithwyr leuenctid a fydd wedi dilyn hyfforddiant Cymraeg achlysurol yn cynyddu ac y caiff ei ymestyn i holl aelodau'r gwasanaeth i wella sgiliau a hyder o fewn y Gwasanaeth leuenctid o ran y defnydd o'r Gymraeg gyda phobl ifanc.
- Rydym yn parhau i ddatblygu deunydd hyrwyddo sy'n dangos y gwerth sy'n cael ei roi gan gyflogwyr ar ddwyieithrwydd.

Bydd Fforwm CSCA y Fro, yn ystod y cylch CSCA nesaf, yn mapio'r ddarpariaeth bresennol y tu allan i'r ysgol ar y cyd â darparwyr a rhanddeiliaid eraill i sicrhau darlun cyfredol, nodi'r bylchau a thrafod cydweithio i gynyddu/ehangu'r ddarpariaeth i ateb ac ysgogi'r galw ymhellach. Mae gofyn barn y plant/pobl ifanc hefyd yn gam pwysig i ddeall yn well pa ddarpariaeth sy'n apelio atynt er mwyn ein bod yn gallu gweithio i ddatblygu'r ddarpariaeth iawn.

Mae'r Cyngor gyda CCD yn bwriadu datblygu gwaith y 'Siarter iaith' (cynradd ac uwchradd) a chydweithredu â rhanddeiliaid y CSCA gyda'r nod penodol o annog defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion y Fro. Bydd hyn yn gofyn am barhau a datblygu cyfarfodydd rhwydwaith y 'Siarter iaith' er mwyn i'r arweinwyr rannu syniadau, arfer da, a chydweithio a chynllunio gyda'i gilydd.

Bydd Grŵp Marchnata a Hyrwyddo CSCA y Fro yn gweithio gyda CCD i ystyried creu a hyrwyddo gweithgareddau ar gyfer diwrnodau penodol i hyrwyddo'r Gymraeg, fel Diwrnod Shwmae Su'mae, Dydd Miwsig Cymru a Dydd Gŵyl Dewi.



Bydd CCD ynghyd â rhanddeiliaid yn parhau i adolygu ei fap darpariaeth yn flynyddol fel cofnod o'r hyn sydd ar gael fel y gall plant oedran ysgol ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn gymdeithasol ac o fewn eu cymunedau.

Bydd y Cyngor yn parhau i hybu'r Gymraeg yn y byd chwaraeon. Bydd hyn yn cynyddu hyder gweithwyr a phobl ifanc i ddefnyddio eu Cymraeg yn gymdeithasol ac i glywed y Gymraeg fel iaith fyw. O fewn 5 mlynedd, ein nod fydd gweld mwy o ddisgyblion yn astudio addysg gorfforol drwy gyfrwng y Gymraeg a bod gan fwy o staff, ledled yr awdurdod, yr hyder i addysgu/hyfforddi'n ddwyieithog. Fel ym mhob agwedd ar y CSCA hwn, bydd hyn yn cael ei fonitro fel rhan o'n gwaith cynllunio camau gweithredu ac adrodd.

Yn gysylltiedig â hyn mae amrywiaeth o gamau gweithredu a fydd yn cael eu cynnwys yn y Strategaeth Hybu'r Gymraeg arfaethedig. Bydd y camau hyn yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn ystod Gwanwyn 2022. Sef:

<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Rhoi cyfleoedd i rieni a phlant ddysgu ac ymarfer eu Cymraeg gyda'i gilydd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Trefnu sesiynau amser stori yn Gymraeg mewn amryw leoliadau yn y Fro, yn arbennig mewn llyfrgelloedd. Trefnu cyrsiau i deuluoedd lle gall oedolion a phlant fwynhau gweithgareddau sy'n cefnogi dysgu'r iaith</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Rhoi cymorth i rieni â phlant mewn ysgolion Cymraeg i leddfu pryderon ynghylch gallu helpu gyda gwaith cartref</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Sefydlu Clybiau Gwaith Cartref mewn ysgolion Cymraeg neu Ganolfannau Cymunedol i gefnogi rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Gweithio gyda phartneriaid allweddol i greu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio Cymraeg y tu allan i'r ysgolion i atgyfnerthu'r cyswllt rhwng iaith addysg a'r gymuned</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Datblygu strategaeth ar y cyd sy'n galluogi'r Gymraeg i ddod yn iaith gweithgareddau cymdeithasol a hamdden. Trefnu cyfres o weithgareddau hamdden i ddarparu ar gyfer amrywiaeth o wahanol ddi-ddordebau, er enghraifft, chwaraeon, drama, dawns, celf a chreffft, gemau cyfrifiadurol, gweithgareddau awyr agored ac ati.</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Cefnogi clybiau ieuencid cyfrwng Cymraeg presennol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Cefnogi'r clybiau presennol ac ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu darpariaeth debyg yn rhywle arall</li> </ul>

Darperir isod wybodaeth yn ymwneud â rhai enghreifftiau o ddarpariaeth Gymraeg gyfredol mewn gweithgarwch corfforol a chwarae.

Mae'r ysgolion cynradd Cymraeg yn cael cyfle i:

- Gymryd rhan ym mhrosiect llysgenhadon ifanc Play Makers lle mae disgyblion hŷn yn cael eu henwebu gan yr ysgol i dderbyn hyfforddiant Play Makers. Y nod yw bod y disgyblion yn dysgu ac ymarfer sgiliau arwain er mwyn cefnogi ac annog eu cyfoedion i fod yn fwy gweithgar yn ystod eu cyfnod egwyl ac amser hamdden, gan ddefnyddio'r Gymraeg fel eu cyfrwng cyfathrebu.
- Cymryd rhan yn heriau'r Ysgolion Actif, sef cyfres o heriau a osodwyd gan y Tîm Datblygu Chwaraeon i gefnogi ysgolion ac annog disgyblion i fod yn fwy actif yn gorfforol. Maent hefyd yn gallu cysylltu â'r digwyddiadau/sesiynau Multisport.

- Cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol Cymraeg eraill gan gynnwys cyfleoedd i gael cymorth ariannol er mwyn creu cyfleoedd gweithgaredd corfforol allgyrsiol newydd neu ehangu rhai ymhellach.

Yn ogystal, mae gwasanaeth Hamdden y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â'r Urdd er mwyn sicrhau cyfleoedd arwain gan gynnwys Arweinwyr Chwaraeon (Oedran Uwchradd). Darparwyd cymorth ariannol i'r Urdd drwy e.e., rhaglen Haf o Hwyl i gefnogi cyfleoedd chwaraeon a diwylliannol ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyllid hefyd wedi cael ei ddyfarnu iddyn nhw yn ddiweddar drwy'r rhaglen Gaeaf Llawn Lles.

Mae cyswllt hefyd â Menter Bro Morgannwg (MBM) ynghylch cyfleoedd chwarae yn y Gymraeg. Cefnogwyd MBM gyda chyllid drwy'r rhaglen Haf o Hwyl i gefnogi cyfleoedd chwarae ychwanegol ac maent hefyd yn cael arian trwy'r rhaglen Gaeaf Llawn Lles i gyflwyno sesiynau coginio a gweithdai gwyddoniaeth.

### **Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Byddwn yn adolygu ein cyflawniadau yn ystod y cyfnod 5 mlynedd ac yn cynllunio gweithgarwch am y 5 mlynedd canlynol er mwyn cyfrannu at gyflawni gweledigaeth y Cyngor fel yr amlinellir ar ddechrau'r ddogfen hon.

Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd mwy o gyfleoedd erbyn 2032 i blant a phobl ifanc ym Mro Morgannwg ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau. Ni ddylai'r cyfleoedd hyn fod yn gyfyngedig a dylent fodoli, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, mewn ystod eang o weithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a chwaraeon y tu mewn a'r tu allan i'n hysgolion. Cydnabyddir ei bod yn angenrheidiol i'r Cyngor barhau i hyrwyddo arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg yn y Fro i gefnogi gweledigaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg.

**Deiliant 6:** Cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

### **Beth yw'r sefyllfa nawr?**

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwmo i fodloni gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Tribiwnlys Addysg 2018 (Deddf ADYTA 2018) o ran trawsnewid disgwyliadau a chanlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae hyn yn darparu fframwaith statudol newydd ar gyfer cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac mae Cod gorfodol yn cyd-fynd ag ef sy'n sicrhau bod gan y system newydd gyfres o bamedrau clir y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol lle mae'n rhaid i awdurdodau lleol, ysgolion, colegau addysg bellach a gwasanaethau iechyd sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag ADY weithredu. Dyma nod y dull gweithredu newydd, fel y nodir yn y Cod:

Cefnogi'r broses o greu system addysg gwbl gynhwysol lle mae pob dysgwr yn cael y cyfle i lwyddo a chael mynediad at addysg sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn dysgu, elwa arno a'i fwynhau.

Mae'r fframwaith statudol newydd yn seiliedig ar y 5 egwyddor ganlynol:

- Ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau lle mae barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant neu berson ifanc y plentyn yn ganolog i gynllunio a darparu cymorth; a galluogir y plentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mor lawn â phosibl yn y prosesau gwneud penderfyniadau a bod ganddo hawliau effeithiol i herio penderfyniadau ynghylch ADY, y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a materion cysylltiedig.
- Nodi'n gynnar, ymyrryd a chynllunio pontio effeithiol lle nodir anghenion, a rhoddir darpariaeth yn ei le cyn gynted â phosibl a lle bo'n bosibl gwneir ymyriadau er mwyn atal i'r ADY rhag datblygu neu ddwysáu.
- Cydweithredu lle mae gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod ADY yn cael ei nodi'n gynnar a bod cymorth cydgysylltiedig priodol yn cael ei roi ar waith i alluogi plant a phobl ifanc i gyflawni disgwyliadau, profiadau a deilliannau cadarnhaol.
- Addysg gynhwysol sy'n cefnogi cyfranogiad llawn mewn addysg brif ffrwd, yn lle bynnag y bo'n ymarferol ac ymagwedd lleoliad cyfan tuag at ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY.
- System ddwyieithog lle cymerir pob cam rhesymol i ddarparu darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg.

Ym Mro Morgannwg rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu cynllun rhanbarthol i sicrhau bod Rhanbarth Canolbarth y De yn gallu bodloni gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg wrth drawsnewid disgwyliadau a deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae'r pedair blaenoriaeth ranbarthol lefel uchel ganlynol yn manylu ar sut mae Rhanbarth Canolbarth y De wedi mynd ati i baratoi ar gyfer gweithredu Deddf ADYTA:

- Drwy weithio mewn partneriaeth, datblygu dealltwriaeth ar draws asiantaethau o arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn hwyluso trafodaeth gydweithredol am anghenion, deilliannau a darpariaeth gyda phawb dan sylw.
- Datblygu cysondeb arfer wrth gynhyrchu cynlluniau datblygu unigol (CDU) o ansawdd uchel a'r trefniadau cyfatebol sy'n angenrheidiol ar gyfer monitro ac adolygu eu heffaith ar gynnydd dysgwyr.
- Archwilio'r trefniadau rhwng yr ALI a'i bartneriaid cyflawni ar gyfer adolygu ansawdd a digonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol i ddiwallu anghenion ei phoblogaeth o ddysgwyr ag ADY nawr ac yn y dyfodol.
- Sefydlu cyfres o egwyddorion sy'n mynegi pryd y byddai'n rhesymol i'r ALI sicrhau Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol DDdY)
- Darparu gwybodaeth a chynghor cyson a thryloyw am y system ADY newydd a datblygu dull integredig o fynd i'r afael ag anghydfodau ac anghytundebau fel y gellir eu hosgoi neu eu datrys yn gynnar.
- Datblygu prosesau i gefnogi'r ffordd newydd o weithio a gwella systemau gwybodaeth reoli, gan gynnwys seilwaith TG i sicrhau y gall y trefniadau ADY newydd a'r hen drefniadau AAA gydfodoli dros y cyfnod gweithredu.

Cyflwynwyd rhaglen ddysgu broffesiynol gynhwysfawr i'r Cydlynwyr ADY ym Mro Morgannwg er mwyn paratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf fis Medi 2021. Cyflwynwyd hyn yn ddwyieithog a chynhyrchir yr holl ddeunyddiau canllaw yn Gymraeg a bydd hyn yn parhau felly yn y dyfodol.

Cyflwynwyd sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth dwyieithog hefyd i Lywodraethwyr Ysgol a Phenaethiaid

Trefnwyd digwyddiad ar y cyd rhwng y pum awdurdod lleol a'r consortiwm i rannu gwybodaeth am adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a thrafod pa ddatblygiadau pellach oedd eu hangen. Roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus iawn gyda chyfradd presenoldeb uchel a chynrychiolaeth o ysgolion ar draws y pum awdurdod lleol.

Yn ogystal, roedd swyddogion cynhwysiant o bob awdurdod lleol yn bresennol ochr yn ochr â Swyddog Safonau a Pholisi Cymru ar gyfer CCD a'r Arweinydd Trawsnewid ADY rhanbarthol. Gwnaed argymhellion yn y cyfarfod ac o ganlyniad cymerwyd y camau canlynol:

- Tynnwyd sylw at y diffyg deunyddiau asesu priodol sydd ar gael yn Gymraeg. O ganlyniad, comisiynwyd Prifysgol Caerdydd i ddatblygu prawf darllen Cymraeg. Mae'r prawf darllen bellach wedi'i ddatblygu sy'n ddatblygiad arloesol a fydd yn cael effaith gadarnhaol ledled Cymru. Ar hyn o bryd mae'r prawf yn cael ei dreialu mewn nifer o ysgolion Cymraeg cyn ei weithredu'n ehangach.
- Amlygwyd hefyd fod diffyg adnoddau Cymraeg ar gyfer ADY yn bryder. Er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r ystod o adnoddau sydd ar gael ac i hwyluso cysondeb o ran ymarfer, crëwyd dogfen ganolog sy'n manylu ar yr holl adnoddau Cymraeg gwahanol sy'n cael eu defnyddio ar draws y rhanbarth ar hyn o bryd.
- Nodwyd bod diffyg cyfleoedd hyfforddi i staff sy'n gweithio mewn lleoliadau Cymraeg hefyd yn broblem. O ganlyniad, crëwyd cyfeiriadur sy'n rhestru'r holl ddatblygiad proffesiynol gwahanol a gynigir gan ymarferwyr arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyfeiriadur hyfforddi Consortiwm Canolbarth y De (CCD) wedi bod yn ddatblygiad

rhanbarthol ac mae wedi galluogi ysgolion ledled y rhanbarth i fanteisio ar ystod eang iawn o gyfleoedd hyfforddi sy'n cwmpasu pob agwedd ar ADY.

Mae gwasanaeth allgymorth sefydledig ym Mro Morgannwg sy'n rhoi cymorth i ysgolion ar gyfer disgyblion ag ADY. Yn dilyn dadansoddiad o'r gweithlu, nodwyd bod angen arbenigwyr ychwanegol sy'n siarad Cymraeg i gefnogi ysgolion ym meysydd awtistiaeth ac iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol.

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi datblygu darpariaeth allgymorth lwyddiannus iawn o'r ysgol arbennig (Ysgol y Deri) i ysgolion prif ffrwd i gynig hyfforddiant a chymorth a galluogi mwy o ddisgyblion ag awtistiaeth ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl i aros mewn lleoliad prif ffrwd.

Nid oedd y tîm allgymorth yn cynnwys unrhyw siaradwyr Cymraeg ac felly nodwyd angen i hyfforddi athrawon cyfrwng Cymraeg mewn meysydd arbenigol o ADY fel y gellir adlewyrchu'r ddarpariaeth allgymorth bresennol gyda darpariaeth allgymorth sydd ar gael yn Gymraeg. Mewn ymateb, defnyddiwyd y grant clwstwr cyflenwi mewn ysgolion mewn ffordd arloesol i ariannu secondiad i athro mewn ysgol cyfrwng Cymraeg brif ffrwd weithio a hyfforddi'n llawn amser yn ysgol arbennig Ysgol Y Deri. Bu hyn yn llwyddiannus ac erbyn hyn mae gan y tîm allgymorth ddau aelod o staff sy'n siarad Cymraeg sy'n gweithio fel rhan o'r tîm hynod effeithiol hwn.

Er gwaethaf y cynnydd mewn staff sy'n siarad Cymraeg mewn timau allgymorth, mae recriwtio i feysydd fel nam ar y synhwyrau a lleferydd ac iaith yn parhau i fod yn her a bydd yn ffocws ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ganolfannau adnoddau arbenigol ym Mro Morgannwg ynghlwm ag ysgolion Cymraeg. Cefnogir disgyblion mewn ysgolion Cymraeg gan dimau allgymorth a lle mae angen cyllid ychwanegol i gefnogi'r lleoliad prif ffrwd gall ysgolion gael gafael ar gronfa anghenion ychwanegol.

Ar hyn o bryd, mae nifer y plant a'r bobl ifanc mewn ysgolion prif ffrwd Cymraeg sy'n dangos cymhlethdod angen a fyddai'n gofyn am ddarpariaeth arbenigol yn isel iawn, ac nid yw'n cyfiawnhau datblygu darpariaeth arbenigol leol. Mewn nifer fach o achosion lle mae angen darpariaeth arbenigol comisiynir lleoedd gan awdurdodau lleol cyfagos. Bydd yr angen i ddatblygu darpariaeth leol yn cael ei adolygu'n barhaus. Bydd manylion yr adolygiad yn cael eu darparu fel rhan o'n cynllunio gweithredu blynyddol unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau. Rydym eisoes yn gweithio gydag Ysgol Bro Morgannwg i sefydlu dosbarth i ddysgwyr ag awtistiaeth. Bydd hyn yn ei le erbyn Medi 2022. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi ei wneud drwy ddefnyddio'r arbenigedd yn Ysgol Y Deri a'n Canolfan Adnoddau yn Ysgol Uwchradd Whitmore i hyfforddi mwy o staff sy'n siarad Cymraeg. Fel rhan o sefydlu'r dosbarth ar gyfer Anhwyllderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Bro Morgannwg, bydd dau aelod o staff yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth helaeth.

## **Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?**

Yn unol ag ADYTA 2018 mae'n ofynnol i bob ALI weithio gyda'i bartneriaid cyflawni i adolygu ansawdd a digonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol i ddiwallu anghenion ei phoblogaeth o ddysgwyr ag ADY nawr ac yn y dyfodol.

Yn ogystal, un o egwyddorion allweddol y Ddeddf yw datblygu system ddwyieithog lle cymerir pob cam rhesymol i ddarparu darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg.

Dros y 5 mlynedd nesaf bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio ystod eang o ddata meintiol ac ansoddol i adolygu'r holl ddarpariaeth ADY yn barhaus er mwyn:

- Nodi nifer y dysgwyr ag ADY mewn lleoliadau addysgol Cymraeg.
- Dadansoddi deilliannau dysgwyr Cymraeg ag ADY.
- Nodi cymhlethdod yr angen a'r gwahanol fathau o ADY a brofir gan ddysgwyr.
- Monitro gofynion y gweithlu a'r gallu i ddarparu cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Monitro'r angen ac, os oes gofyn, datblygu lleoliadau arbenigol lleol mewn ysgolion Cymraeg ar gyfer ADY cymhleth.

Yn seiliedig ar yr adolygiad parhaus hwn o ddarpariaeth ADY bydd swyddogion o fewn y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau yn adrodd ar gynnydd o ran bodloni gofynion Deddf ADYTA 2018, nodi unrhyw fylchau yn nigonolrwydd y ddarpariaeth a gwneud argymhellion o ran y camau priodol sydd eu hangen.

Bydd adolygiad cychwynnol o'r ddarpariaeth yn cael ei gwblhau erbyn diwedd 2022.

- Yn 2023 caiff ffynhonnell o adnoddau Cymraeg eu cyrchu a'u darparu i gefnogi lleoliadau addysgol, gan gynnwys darparwyr blynyddoedd cynnar, yn unol â'r angen a nodwyd.
- Bydd model newydd ar gyfer cynnig darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol Cymraeg yn cael ei ddatblygu yn 2022-23 yn seiliedig ar angen a nodwyd.
- Yn 2023 bydd yr ysgol arbennig bresennol ym Mro Morgannwg, Ysgol y Deri, yn cael ei ehangu a bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddatblygu darpariaeth Gymraeg fel rhan o'r ehangu hwn.
- Bydd mynediad at weithwyr proffesiynol arbenigol Cymraeg eu hiaith, naill ai drwy recriwtio uniongyrchol neu drwy gydweithio gydag awdurdodau cyfagos yn cael ei sicrhau yn ôl y galw a nodwyd.
- Mewn cydweithrediad â phartneriaid rhanbarthol bydd y cynnig hyfforddi iaith Gymraeg yn cael ei gryfhau ymhellach fel y gall staff ysgolion ddefnyddio'u dewis iaith yn unol â'u dewis unigol.
- Bydd gwaith yn cael ei wneud gyda LIC yn arwain ar ddatblygu adnoddau mwy arbenigol ac offer asesu i gefnogi'r ALI ac ysgolion.
- Yn 2022 bydd gweithgor ADY Cymraeg yn cael ei sefydlu. Bydd ystod o randdeiliaid yn rhan o'r gweithgor, ac fe fydd yn goruchwyllo ystyriaeth a datblygiad darpariaeth Gymraeg ym Mro Morgannwg.

## **Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Erbyn diwedd y cynllun deng mlynedd byddem yn disgwyl y bydd gan y Cyngor brosesau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr holl gamau rhesymol wedi'u cymryd i sicrhau darpariaeth ADY ddigonol yn Gymraeg fel y nodir yn Neddf ADYTA 2018. Yn ymarferol, y nod fydd cyflawni'r canlynol:

- Darparu cyngor, arweiniad a chymorth cyfrwng Cymraeg ar gyfer lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dysgwyr cyfrwng Cymraeg ag ADY

- Mynediad at ystod lawn o weithwyr proffesiynol sy'n gallu gweithio gydag ysgolion i gefnogi cynhwysiant drwy gyfrwng y Gymraeg
- Cynnydd yn yr offer asesu arbenigol a'r ymyriadau sydd ar gael yn y Gymraeg
- Cynnig dysgu proffesiynol cynhwysfawr yn ddwyieithog ym mhob maes ADY .
- Darpariaeth Gymraeg briodol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth naill ai yn eu hysgolion prif ffrwd neu mewn lleoliadau arbenigol lle bo angen



**Deilliant 7:** Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

**Beth yw'r sefyllfa nawr?**

### Gallu Cymraeg athrawon ym Mro Morgannwg 2020/21

(Diwygiad StatsCymru – Awst 2021)

Mae'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY) yn gasgliad data statudol blynyddol o wybodaeth am y gweithlu mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru a chaiff ei ddychwelyd at Lywodraeth Cymru bob mis Tachwedd. Cyhoeddwyd y cyfrifiad am y tro cyntaf yn ddiweddar yn 2019 ac mae'n ymdrin â gwahanol agweddau ar weithlu ysgolion Cymru. Nid yw'r data ar gyfer 2019 wedi'i gynnwys isod oherwydd yn sgil newidiadau gan Lywodraeth Cymru i gyfrifo niferoedd ar gyfer 2020, nid oes modd cymharu'r ffigurau ar gyfer 2020 yn uniongyrchol â ffigurau 2019.

Cyfanswm 2020/21 (Pob ysgol – cyfrwng Cymraeg a Saesneg)								Cyfanswm
Dim sgiliau	Lefel Mynediad	Lefel Sylfaenol	Lefel Canolradd	Lefel Uwch	Lefel Hyfedredd	Gwybodaeth heb ei derbyn	Anhysbys	
315	380	115	185	75	180	5	-	1255

Cyfanswm 2020/21 (Cynradd – Cyfrwng Cymraeg a Saesneg)								Cyfanswm
Dim sgiliau	Lefel Mynediad	Lefel Sylfaenol	Lefel Canolradd	Lefel Uwch	Lefel Hyfedredd	Gwybodaeth heb ei derbyn	Anhysbys	
10	205	95	150	65	70	*	-	595

Cyfanswm 2020/21 (Uwchradd – Cyfrwng Cymraeg a Saesneg)								Cyfanswm
Dim sgiliau	Lefel Mynediad	Lefel Sylfaenol	Lefel Canolradd	Lefel Uwch	Lefel Hyfedredd	Gwybodaeth heb ei derbyn	Anhysbys	
255	160	20	30	15	30	*	-	510

Cyfanswm 2020/21 (Canol – Cyfrwng Cymraeg a Saesneg)								Cyfanswm
Dim sgiliau	Lefel Mynediad	Lefel Sylfaenol	Lefel Canolradd	Lefel Uwch	Lefel Hyfedredd	Gwybodaeth heb ei derbyn	Anhysbys	
-	-	-	-	-	75	-	-	75

\*Mae Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn cael ei hystyried yn ysgol ganol i ddibenion y CBGY

Cyfanswm 2020/21 (ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unig – Cynradd ac Uwchradd)								Cyfanswm
Dim sgiliau	Lefel Mynediad	Lefel Sylfaenol	Lefel Canolradd	Lefel Uwch	Lefel Hyfedredd	Gwybodaeth heb ei derbyn	Anhysbys	
-	-	-	-	40	115	-	-	155

## Addysgu / gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mro Morgannwg

Cyfanswm 2020/21					Cyfanswm
Addysgu / gweithio yn y Gymraeg yn y swydd bresennol	Gallu addysgu / gweithio yn Gymraeg ond ddim yn gwneud hynny yn y swydd bresennol	Methu addysgu / gweithio yn Gymraeg	Addysgu Cymraeg fel pwnc yn unig	Anhysbys	
185	65	575	435	-	1255

## Gallu Staff Cymorth ym Mro Morgannwg i siarad Cymraeg

Cyfanswm 2020/21 (Pob ysgol – cyfrwng Cymraeg a Saesneg)								Cyfanswm
Dim sgiliau	Lefel Mynediad	Lefel Sylfaenol	Lefel Canolradd	Lefel Uwch	Lefel Hyfedredd	Gwybodaeth heb ei derbyn	Anhysbys	
680	380	75	40	30	90	10	-	1310

Cyfanswm 2020/21 (ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unig)								Cyfanswm
Dim sgiliau	Lefel Mynediad	Lefel Sylfaenol	Lefel Canolradd	Lefel Uwch	Lefel Hyfedredd	Gwybodaeth heb ei derbyn	Anhysbys	
10	*	*	5	20	70	-	-	110

**Ffynhonnell:** Cyfrifiadau Cyfrifiad Blynyddol Gweithlu Ysgolion (CBGY) drwy StatsCymru

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/teachers-and-support-staff/school-workforce-annual-census/welsh-language/welshability-by-localauthority>

\* = niferoedd yn fwy na sero ond llai na phump. Mae nifer yr athrawon wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf.

### Ansawdd ystadegol

Nid yw'r wybodaeth a gasglwyd ar gyfer 2019 a 2020 wedi mynd drwy broses ddilysu derfynol ffurfiol. Fodd bynnag, mae gwahanol gamau o ddilysu awtomataidd a gwirio synnwyr yn rhan o'r broses er mwyn sicrhau data o ansawdd uchel i lywio'r gwaith o lunio polisiau.

### Gwybodaeth am ddiwygiadau

Awst 2021 - Cyflwynwyd methodoleg well i roi cyfrif ar gyfer cofnodion dyblyg a allai fod wedi arwain at rai diwygiadau bach i'r dadansoddiad o rai nodweddion staff yn y data niferoedd staff ar gyfer 2019.

Medi 2021 - Adnabuwyd problem a effeithiodd ar ryddhau canlyniadau'r cyfrifiad gweithlu ysgolion ar gyfer 2020. Mae hyn yn effeithio ar y data a gyhoeddir ar niferoedd, cyfwerth ag amser llawn a chyfatebion person llawn (FPE) ar gyfer athrawon. O ganlyniad i hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r fethodoleg ar gyfer cael cyfrif niferoedd ar lefel Cymru ac ar lefel awdurdod lleol. Digwyddodd y broblem lle hepgorwyd rolau staff penodol o'r cyfrifiadau.

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn monitro canlyniadau'r CBGY a bydd yn defnyddio'r data hwn yn gynyddol bob blwyddyn i lywio a chefnogi cynllunio'r gweithlu o ran addysg Gymraeg drwy oes CSCA y Fro. Bydd gwybodaeth leol a gwybodaeth a gasglwyd gan Bartneriaid Gwella (PGau) yng Nghonsortium Canolbarth y De (CCD), Adnoddau Dynol ac Uned Cymorth i Lywodraethwyr y Cyngor (UCLI) hefyd yn cael eu defnyddio i ategu data'r cyfrifiad.

Mae gwefan Llywodraeth Cymru Stats Cymru sy'n cynnal data CBGY wedi'i labelu ar hyn o bryd fel 'Ystadegau arbrofol' ac mae'r fethodoleg yn dal i gael ei datblygu. Efallai y bydd angen gwneud rhagor o waith hefyd i wella cywirdeb y data ffynhonnell a gofnodir gan ysgolion y Fro ar gyfer y CBGY blynyddol.

Mae arwyddion cynnar gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu bod Cymru'n mynd i'r cyfeiriad cywir o ran athrawon cynradd, ond bod angen canolbwyntio'n benodol ar gynyddu nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu dysgu Cymraeg neu 30 pwnc arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai gwaith dadansoddi gynnwys ystod eang o wahanol randdeiliaid, a bydd y Cyngor yn ymgysylltu ag eraill i gefnogi'r broses hon unwaith fydd y data ar gael. Byddwn yn ymgysylltu ag amryw bartneriaid i gefnogi datblygiad y gweithlu e.e. CCD, Coleg Cymraeg, Dysgu Cymraeg.

Helpodd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2016 i gymell ymgyrch y Cyngor i wella sgiliau ieithyddol Cymraeg ein gweithlu ac felly gwella'r gwasanaethau a ddarparwn i'n trigolion. Y sefyllfa ddiodyn yw bod pob swydd ym mhob agwedd ar fywyd ysgol yn cael eu hysbysebu fel 'sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol' a bydd rhaglen o hyfforddiant yn parhau i gael ei hyrwyddo.

Bydd y Cyngor yn cyflawni:

Cynnydd o 20% mewn staff ysgolion cynradd sy'n gallu dysgu yn Gymraeg erbyn 2031  
Cynnydd o 40% mewn staff uwchradd sy'n gallu addysgu yn Gymraeg erbyn 2031.

Bydd y Cyngor yn craffu ar ddata CBGY bob blwyddyn:

- Nodi swyddi gwag ym Mro Morgannwg yn ôl y math o ysgol e.e. cynradd, uwchradd, arbennig a nodi unrhyw 'duediadau' o ran swyddi gweigion.
- Monitro nifer yr athrawon sydd eu hangen ym Mro Morgannwg fesul math o ysgol (a phwnc os yw'n berthnasol) – yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol ac er mwyn ymateb i dargedau CSCA y Fro a amlinellir uchod.
- Monitro nifer y Penaethiaid a'r Dirprwy Benaethiaid sydd eu hangen, yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol, ac er mwyn ymateb i dargedau CSCA y Fro a amlinellir uchod.

Mae trafodaethau gyda chydweithwyr o fewn ein timau Cydraddoldeb ac Adnoddau Dynol eisoes wedi digwydd i ddechrau cynllunio i ddiweddarau data sy'n cael ei gadw yn y Cyngor ar hyn o bryd o ran sgiliau ieithyddol ein staff addysgu. Mae hwn yn weithred allweddol ar gyfer blwyddyn un cylch y CSCA newydd.

### **Cynllun sabothol:**

2022-23 - bydd un athro o'r Fro yn cymryd rhan yn rhaglen Cyfnod Sabothol y Gymraeg mewn Blwyddyn. Cynigir 7 lle ar draws CCD.

Gwybodaeth hanesyddol:

<b>Blwyddyn</b>	<b>Nifer o'r Fro</b>
2017-18	3
2018-19	6
2019-20	3
2020-21	3
2021-22	2

### **Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?**

Mae datblygu'r gweithlu ym Mro Morgannwg i gefnogi addysg Gymraeg yn hanfodol er mwyn

cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a hefyd i gyrraedd ein targed o 24% o ddysgwyr Blwyddyn 1 mewn addysg Gymraeg erbyn 2031-32. Bydd cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn gofyn am gydweithio a gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ac asiantaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol gyda'r nod penodol o ehangu, denu, recriwtio, hyfforddi, datblygu a chadw gweithlu effeithiol mewn lleoliadau gofal plant, y blynyddoedd cynnar, mewn ysgolion a lleoliadau ôl-16.

Sefydlwyd Grŵp Cynllunio Gweithlu CSCA fel is-grŵp i Fforwm CSCA y Fro gan ganolbwyntio'n benodol ar y sectorau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar i ystyried yn benodol y ffordd orau o gefnogi'r cynnydd a ragwelir mewn gofal plant Cymraeg a darpariaeth blynyddoedd cynnar Cymraeg ym Mro Morgannwg. Gwahoddir rhanddeiliaid perthnasol iddo fel Mudiad Meithrin, Menter Bro Morgannwg a RhAG ynghyd â swyddogion perthnasol allweddol y Cyngor. Bydd datblygu gweithlu i gefnogi gofal plant cyfrwng Cymraeg a lleoliadau blynyddoedd cynnar fel sesiynau Ti a Fi a Cymraeg i Blant, ac yna Cylch Meithrin, yn hanfodol er mwyn i Fro Morgannwg gyrraedd ei tharged o 24% o ddysgwyr Blwyddyn 1 erbyn 2031-32.

Cydnabyddir bod angen canolbwyntio ar ffyrdd o sicrhau recriwtio staff â chymwysterau addas ar lefel genedlaethol a lleol. Bydd y Cyngor yn archwilio ffyrdd o ddenu mwy o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol fel dynion i addysgu mewn ysgolion cynradd a phobl o gefndiroedd BAME i'r sectorau Cynradd ac Uwchradd Cymraeg. Mae data ar ethnigrwydd a nodweddion gwarchodedig eraill yn cael ei gadw ar lefel ysgol a byddai'n cael ei ddefnyddio'n ddiennw i gefnogi camau a wneir gan Grŵp Cynllunio Gweithlu'r CSCA i gyflawni'r deilliannau hyn.

Mae'r data statudol a ddefnyddir i gefnogi'r camau hyn yn cael ei gadw ar lefel ysgol ac mae'n disgyn i'r meysydd canlynol:

- Manylion sylfaenol gweithwyr gan gynnwys enw, rhywedd, dyddiad geni, rhif Yswiriant Cenedlaethol, ethnigrwydd, hunaniaeth genedlaethol a nam corfforol neu feddyliol, cyfwerth ag amser llawn, Statws Absenoldeb Tymor Hir, a Staff 3ydd Parti. Rhif athro a statws addysgu
- Sgiliau'r Gymraeg (hyfedredd a gallu i addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg)
- Rolau CBGY (h.y., Pennaeth, athro cymwys, goruchwyliwr canol dydd ac ati)
- Cwricwlwm, e.e., grŵp blwyddyn a phwnc a addysgir (uwchradd)

Mae gofyn i ysgolion gasglu a chofnodi'r data hwn ar gyfer pob cyflogai newydd. Mae'r Cyngor hefyd yn gofyn i ysgolion ddiweddarau'r wybodaeth hon ar yr holl aelodau staff ar gyfer CBGY bob blwyddyn fel bod y data hwn mor gyfredol a chywir ag y gall fod.

O ran recriwtio a chadw, mae ysgolion yn darparu'r canlynol ar gyfer Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD):

- Recriwtio (pob swydd addysgu wag yn yr ysgol) – pwnc, cyfnod allweddol, os cyfrwng Cymraeg, nifer o geisiadau a dderbyniwyd, person wedi'i benodi, neu sut yr oedd y gwaith yn cael ei gyflawni os nad oedd yn cael ei lenwi.
- Cadw (pob athro yn gadael y proffesiwn addysgu) – cyfnod allweddol, profiad addysgu mewn blynyddoedd, cyrchfan ar ôl gadael.

Nid yw'r data hwn yn cael ei gadw yn ein system gwybodaeth rheoli ysgolion, (SIMS), dim ond yn cael ei ddarparu yn ei grynsyth unwaith y flwyddyn ar gyfer CYBLD.

Bydd y Cyngor yn cydweithio â Llywodraeth Cymru, Fforwm CSCA y Fro a Chonsortiw Canolbarth y De (CCD) i gyrraedd ei darged o 24% o ddysgwyr Blwyddyn 1 erbyn 2031-32. Bydd hyn yn cynnwys ystyried cefnogi, hyrwyddo neu ddatblygu'r strategaethau gweithlu cenedlaethol a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru:

- Menter Iaith Athrawon Yfory - yn targedu hyfforddiant athrawon myfyrwyr TAR uwchradd i addysgu pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- Gweithio gyda darparwyr Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) ac Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) i ategu a chefnogi recriwtio a gweithredu ymgyrch cyfryngau digidol i farchnata i grwpiau penodol o ddarpar athrawon, gan gynnwys graddedigion cyfrwng Cymraeg.
- datblygu llwybrau amgen i addysgu drwy lwybrau rhan-amser a mewn swydd.
- Cyrsiau pontio peilot ar gyfer athrawon â statws athro cymwysedig (SAC) sy'n addysgu yn y sector cynradd i dderbyn hyfforddiant a chymorth ychwanegol er mwyn newid ac addysgu yn y sector uwchradd.
- Gweithio gyda phartneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) i gyflwyno Rhaglenni AGA achrededig. Mae'r rhaglenni'n cynnwys gofyniad i gynnwys o leiaf 25 awr o hyfforddiant iaith Gymraeg.
- Rhaglen o weithgareddau gyda'r nod o gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg ar Lefel A a hyrwyddo llwybr at ddysgu Cymraeg fel pwnc. Mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- Dosbarthu cyllid penodol i'r consortia rhanbarthol o gyllideb Codi Safonau mewn Ysgolion i gefnogi'r gwaith o ddarparu dysgu a datblygiad proffesiynol Cymraeg.
- Parhau i wella sgiliau Cymraeg ymarferwyr drwy'r Cynllun Sabothol Cymraeg.

Mae hyfforddi staff yn ffactor pwysig o ran cyrraedd y targedau sydd wedi eu gosod yn y ddogfen hon. Bydd targedau mesuradwy ar gyfer y flaenoriaeth hon yn cael eu gosod yn flynyddol o fewn y cynlluniau gweithredu blynyddol. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Chonsortiw Canolbarth y De (CCD) a'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol i ddatblygu arweinwyr ysgolion ar gyfer ysgolion Cymraeg ym Mro Morgannwg. Bydd Partneriaid Gwella (PGau) o'r CCD yn nodi, yn annog ac yn cefnogi ceisiadau gan ymgeiswyr priodol ar gyfer rhaglenni datblygu arweinyddiaeth cenedlaethol perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys y Rhaglen Darpar Benaethiaid (RhDB/AHP), rhaglen ddatblygu blwyddyn o hyd ar gyfer darpar arweinwyr ysgol uchelgeisiol sydd â dyheadau ar gyfer prifathrawiaeth. Mae RhDB yn rhagofyniad ar gyfer y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) sy'n orfodol i gael bod yn Benaeth. Bydd y Cyngor a'r CCD yn monitro nifer yr ymgeiswyr Cymraeg ar y rhaglenni arweinyddiaeth cenedlaethol gan gynnwys adroddiadau cyrchfannau ar gyfer ymgeiswyr CPCP

Bydd CCD yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) i gefnogi athrawon sy'n fyfyrwyr ac i sicrhau bod ysgolion Cymraeg yn cael eu nodi fel ysgolion arweiniol, ysgolion hyfforddiant neu ysgolion lleoliad. Bydd CCD yn gweithio gyda phartneriaid allanol i hyrwyddo mentrau ar lwybrau i addysgu a rhannu unrhyw wybodaeth berthnasol gydag ysgolion. Bydd dysgu proffesiynol a chymorth proffesiynol i Athrawon Newydd Gymhwyso yn parhau i gael ei ddatblygu a'i ddarparu, yn enwedig drwy rôl mentoriaid sefydlu rhanbarthol.

Bydd CCD yn helpu athrawon a gweithwyr cymorth dysgu yn ysgolion y Fro i wella eu sgiliau Cymraeg a'u sgiliau addysgu Cymraeg drwy ddadansoddi data'r Fframwaith Iaith fel gwaelodlin

ar gyfer y gwelliant sydd ei angen a darparu dysgu proffesiynol Datblygu'r Gymraeg ar wahanol lefelau. Mae cymorth effeithiol a pharhaus ar gael i gyfranogwyr Rhaglen Sabothol y Gymraeg ar ôl dychwelyd i'r ysgol sy'n cynnwys sesiynau diweddarau bob tymor i rannu arfer gorau a pharhau i ddatblygu iaith ymarferwyr.

Bydd CCD drwy waith y Swyddog Cymraeg mewn Addysg, yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i ysgolion ar sut i adlewyrchu sgiliau Cymraeg athrawon a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion yn gywir wrth gwblhau Cyfrifiad Blynyddol Gweithlu'r Ysgol (CBGY).

Mae *'Gyda'n Gilydd'* wedi darparu rhaglen o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer y sector uwchradd sydd wedi cael derbyn da. Ar lefel uwchradd, mae *'Gyda'n Gilydd'* yn darparu cymorth i ddatblygu rhai nad ydynt yn arbenigwyr i addysgu pwnc arall hyd at safon TGAU. Codir pryderon mewn rhai pynciau gan gynnwys mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg ar lefel uwchradd. Mae CCD yn gweithio'n gyson gyda'n rhanddeiliaid i'w cefnogi.

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn cynnig Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg (TAR) ôl-16 a chwrs Gradd Sylfaen mewn Addysg Plentynod. Mae'r rhain ynghyd â rhaglenni dysgu a datblygu yn cynnig ffocws ar gyfleoedd gyrfa Cymraeg.

Bydd Uned Cefnogi Llywodraethwyr y Cyngor (UCLI) yn parhau i gefnogi llywodraethwyr, gan gynnwys llywodraethwyr staff a llywodraethwyr athrawon er mwyn iddynt allu cyflawni eu rôl yn effeithiol. Mae'r UCLI hefyd yn cefnogi ac yn cynghori ysgolion gyda recriwtio ar uwch benodiadau fel Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid gan weithio'n agos gyda'r Partner Gwella o Gonsortium Canolbarth y De.

### **Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?**

Mae datblygu'r gweithlu ym Mro Morgannwg i gefnogi addysg Gymraeg yn hanfodol er mwyn cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a hefyd i gyrraedd ein targed o 24% o ddysgwyr Blwyddyn 1 mewn addysg Gymraeg erbyn 2031-32. Bydd cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn gofyn am gydweithio a gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ac asiantaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol gyda'r nod penodol o ehangu, denu, recriwtio, hyfforddi, datblygu a chadw gweithlu effeithiol mewn lleoliadau gofal plant, y blynyddoedd cynnar, mewn ysgolion a lleoliadau ôl-16.

Bydd gan Fforwm CSCA y Fro rôl bwysig yn cefnogi ac yn herio Cyngor Bro Morgannwg i gyrraedd ei darged. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw'r Cyngor yn gallu llwyddo heb yr amser, yr ymdrech a'r ymrwymiad gan yr holl rhanddeiliaid ac asiantaethau sydd oll â rôl allweddol i gyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.

## **Sut y byddwn yn gweithio gydag eraill i gyflawni ein gweledigaeth**

Mae Fforwm Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) y Fro wedi ei hen sefydlu ac mae'r Fforwm yn gweithredu fel cyfaill beirniadol i herio a chefnogi Cyngor Bro Morgannwg wrth ddrafftio ei Gynllun, ei weithredu a'i werthuso yn unol â Rheoliadau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019.

Mae Cyngor Bro Morgannwg drwy Fforwm CSCA y Fro wedi elwa ar y cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â'r holl randdeiliaid a bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i barhau i adeiladu a chynnal perthynas waith adeiladol gyda'r holl grwpiau a sefydliadau perthnasol a all gyfrannu at lwyddiant CSCA 2022-32 y Fro.

Bydd Fforwm CSCA y Fro yn cyfarfod yn rheolaidd drwy gydol oes ei Gynllun CSCA 2022-2032. Gwahoddir rhanddeiliaid presennol i fynychu'r cyfarfodydd ac rydym yn croesawu diddordeb gan unrhyw grwpiau a sefydliadau perthnasol eraill a all ymrwmo, cyfrannu a'n helpu i ddatblygu addysg Gymraeg. Cysylltwch â Jeremy Morgan yn [jmorgan@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:jmorgan@valeofglamorgan.gov.uk) i drafod os ydych chi'n teimlo y gallwch chi gyfrannu.

Mae'r grwpiau a'r sefydliadau a gynrychiolir ar Fforwm CSCA y Fro yn cynnwys:

- Llywodraeth Cymru - Pennaeth Cynllunio Cymraeg mewn Addysg
- Uwch Swyddogion/Rheolwyr Addysg Cyngor Bro Morgannwg (sy'n berthnasol i'r CSCA)
- Consortiwm Canolbarth y De (CCD) – Uwch Arweinydd Strategol ar gyfer Polisi, Safonau a Gwella'r Gymraeg
- Penaethiaid Bro Morgannwg – Cynrychiolaeth Ysgolion Cyfrwng Cymraeg a Saesneg
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Mudiad Meithrin
- RhAG – Rhieni dros Addysg Gymraeg
- Menter Bro Morgannwg
- Urdd Gobaith Cymru

Mae rhanddeiliaid wedi nodi wrth ddrafftio CSCA 2022-2032 y Fro y gofyniad i sefydlu nifer o grwpiau i gefnogi gwaith Fforwm CSCA y Fro.

Mae Grŵp Ffocws Niferoedd Disgyblion y CSCA eisoes wedi'i sefydlu i weithio'n uniongyrchol gyda Phenaethiaid ysgolion Cymraeg i nodi unrhyw resymau ac unrhyw fesurau neu gamau gweithredu er mwyn helpu i gynyddu nifer y disgyblion a chadw disgyblion yn eu hysgolion. Bydd y grŵp hefyd yn cefnogi ysgolion i geisio sicrhau nad yw disgyblion yn cael eu colli wrth bontio rhwng cyfnodau allweddol ac yn arbennig rhwng y cyfnod cynradd ac uwchradd.

Sefydlwyd Grŵp Marchnata a Hyrwyddo y CSCA hefyd i ddatblygu strategaeth i hyrwyddo, annog a chefnogi dewis addysg Gymraeg ym Mro Morgannwg. Bydd RhAG yn helpu'r Cyngor o ganlyniad i'w brofiad yn y maes hwn o weithio gydag awdurdodau lleol eraill yn Ne Cymru.

Sefydlwyd Grŵp Cynllunio Gweithlu'r CSCA fel is-grŵp i Fforwm CSCA y Fro gan ganolbwyntio'n benodol ar y sectorau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar i ystyried yn benodol y ffordd orau o gefnogi'r cynnydd a ragwelir mewn gofal plant Cymraeg a darpariaeth blynyddoedd cynnar Cymraeg ym Mro Morgannwg. Gwahoddir rhanddeiliaid perthnasol iddo fel Mudiad Meithrin, Menter Bro Morgannwg a RhAG ynghyd â swyddogion perthnasol allweddol y Cyngor.



Yn ystod oes CSCA 2022-2032 y Fro, disgwylir y bydd grwpiau cymorth pellach a nifer o Grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn cael eu sefydlu pan fo angen. Caiff y rhain eu pennu a'u sefydlu drwy drafodaethau yng nghyfarfodydd rheolaidd Fforwm CSCA y Fro.

Mae gan Gyngor Bro Morgannwg ddyletswydd statudol i lunio Adroddiad Perfformiad Blynyddol (APB) erbyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn dros fywyd y Cynllun 2022-2032 gan ddechrau o 2023. Rhaid i'r APB amlinellu'r cynnydd a wnaed i gyflawni'r targedau yn ein Cynllun a'r camau a gymerwyd o ganlyniad i'r datganiadau yn y Cynllun. Bydd Fforwm CSCA y Fro yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i adolygu cynnydd Cynllun y Fro 2022-2032 ac i gyfrannu at yr APB.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a pha mor hanfodol fydd hi i'r awdurdod lleol weithio gyda'r holl randdeiliaid allweddol sy'n rhan o'r Fforwm CSCA os yw am gyflawni ei nod a'i amcanion i hyrwyddo a datblygu addysg Gymraeg yn y Fro.